Dylai pob gweithiwr proffesiynol nyrso a bydwreigiaeth a myfyriwr allu gweithio a dysgu heb ragfarn a gwahaniaethu. Rydym yn gwybod nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei chael ar weithwyr proffesiynol, mae triniaeth deg o weithwyr proffesiynol yn gysylltiedig â gwell gofal i aelodau'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae angen i ni ddal ein hunain a phartneriaid yn atebol am ein rhan yn yr anghyfartaleddau hyn; gan sicrhau ein bod yn sefydliad cynhwysol gyda phrosesau rheoleiddio sy'n deg i bawb.

Yn ystod 2023-2024, pwysleisiodd pryderon chwythu'r chwiban a chanfyddiadau o arolygon mewnol yr angen i ni fyfyrto ar ein diwylliant yn y gweithle, ein prosesau rheoleiddio a sut rydym yn meithrin gweithle amrywiol, cynhwysol a di-wahaniaethu. Rydym yn gwybod fod creu a chynnal y diwylliant cywir yn alluogwr allweddol

i ni reoleiddio a chefnogi gweithwyr proffesiynol yn dda. Rydym yn gwybod ein bod wedi gwneud pethau'n anghywir ac rydym wedi ymrwymo i ymchwiliad trylwyr, tryloyw ac annibynnol i'r pryderon ac i weithredu ar y canfyddiadau allweddol.

Penodwyd Ijeoma Omambala CB gennym ym mis Tachwedd 2023 i gynnal ymchwiliadau i'r achosion penodol a godwyd fel rhan o'r pryderon am ein gwaith achos rheoleiddio a'r modd yr ymdriniwyd â'r pryderon ynghylch chwythu'r chwiban. Mae disgwyl i ganfyddiadau'r ymchwiliadau gael eu cyhoeddi yn haf 2024.

Ar wahân, fe wnaethom benodi Nazir Afzal OBE a Rise Associates i gynnal adolygiad annibynnol o'n diwylliant. Daeth penodiad Nazir Afzal OBE a Rise Associates i gysylltiad helaeth â'n Grŵp Cyngori Pobl a Diwylliant mewnol, a sefydlwyd i ddarparu her a chynghor i'n Bwrdd Gweithredol a'n Cyngor. Mae'r Grŵp Cyngori Pobl a Diwylliant yn dod â chydweithwyr o'n rhwydweithiau staff, undebau a fforwm gweithwyr ynghyd ymhlith eraill. Mae canfyddiadau'r adolygiad i fod i gael eu cyhoeddi ar 9 Gorffennaf 2024. Rydym yn ymwybodol eithriadol o'r angen i wneud yn well i'n cydweithwyr, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn cydnabod yr effaith ddifrifol

mae hyn wedi'i chael, ac mae'n parhau i'w chael, ar ein cydweithwyr a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o'r canfyddiadau ac wedi dechrau gweithio i ddatblygu cynlluniau gweithredu cadarn fydd yn arwain at newid cynaliadwy. Byddwn yn adrodd yn gyhoeddus yn erbyn y cynlluniau hyn, gan gynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn fe wnaethom gymryd nifer o gamau yn ystod 2023-2024. Er mwyn cefnogi ein cydweithwyr:

- Fe wnaethom ddatblygu dangosfwrdd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) newydd fel bod data a thueddiadau ar feysydd allweddol, megis bylchau cyflog, yn fwy hygyrch i gydweithwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall pob cydweithiwr ymgysylltu â sgysiau a theimlo eu bod wedi'u grymuso i gyfrannu at sgysiau ynghylch sut rydym yn gwella EDI ar draws yr NMC.
- Fe wnaethom ddatblygu menter yr NMC Wedi'ch Grymuso i Godi Llais, a lansiwyd ym mis Mehefin 2024 i helpu i ddatblygu diwylliant tryloyw, cynhwysol ac agored sy'n grymuso cydweithwyr i rannu safbwyntiau a chodi pryderon gan wybod y gwrandewir arnynt a gweithredir arnynt.
- Rydym yn cydnabod gwaith pwysig ein rhwydweithiau cyflogeion ac wedi buddsoddi mewn datblygu fframwaith gweithredol newydd sy'n egluro rolau a chyfrifoldebau, gan arwain at gydweithio mwy effeithiol a chanlyniadau gwell i gydweithwyr. Ym mis Mai 2024, i gydnabod ein gwaith i adeiladu rhwydweithiau cryf, dyfarnwyd y Marc Ardystiedig Radius i ni: "Rydym yn buddsoddi yn ein rhwydweithiau cyflogeion".

Er mwyn cryfhau ein prosesau rheoleiddio a chefnogi ein partneriaid:

- Aethom ymlaen â chamau gweithredu a nodwyd gan ein hymchwil Uchelgeisiol ar gyfer Newid, a ystyriodd pam mae gweithwyr proffesiynol â nodweddion gwarchodedig penodol yn profi canlyniadau gwahanol o'n prosesau rheoleiddio. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys adnewyddu'r data EDI rydym yn eu casglu ar atgyfeiriadau cyflogwyr fel y gall ein timau gael trafodaethau wedi'u targedu gyda chyflogwyr i helpu i sicrhau nad oes unrhyw ragfarn neu annhegwch yn eu penderfyniadau. Mae cam olaf yr ymchwil yn adolygiad annibynnol o'n penderfyniadau addasrwydd i ymarfer er mwyn deall yn well pam y gall rhai grwpiau wynebu canlyniadau gwahanol, a disgwylir y canfyddiadau yn 2024-2025.
- Fe wnaethom barhau i gasglu, monitro ac adrodd ar ddata amrywiaeth y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau rheoleiddio. Mae hyn yn golygu y gallwn ni ddefnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth at fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i ymgorffori'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell.
- Buom yn gweithio gyda Sefydliadau Addysg Cymeradwy (SACau) i ymgorffori EDI yn eu harferion cwricwlwm, gan ein bod yn gwybod bod myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig penodol yn wynebu gwahaniaethau yn eu canlyniadau addysg.
- Fe wnaethom ddiweddarau ein polisi ar addasiadau rhesymol i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, megis gweithwyr proffesiynol sy'n mynd drwy ein proses addasrwydd i ymarfer.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi pobl trwy ddileu rhwystrau yn ein prosesau, gwella hygyrchedd a gwella profiad cwsmeriaid.

Rydym yn gwybod bod llawer mwy y mae angen i ni ei wneud i greu diwylliant sy'n rhydd rhag gwhaniaethu, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn dathlu amrywiaeth,

yn hyrwyddo cynhwysiant a diogelwch seicolegol ac yn blaenoriaethu bod yn agored a dysgu er budd cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Byddwn yn ailymweld â'n blaenoriaethau yn y meysydd hyn yng ngolau canfyddiadau'r adolygiad o'n diwylliant ac ymchwiliadau ljeoma Omambala Cwnsler y Brenin.

## Cefnogi cydweithwyr i ffynnu

### **Gweithgarwch allweddol yn 2023-2024: Fe wnaethom ddiwygio ein strwythurau gwobrwyo, adeiladu gallu rheoli a chyflwyno ymagwedd fwy cyson ac uchelgeisiol o arfarnu, yn ogystal ag adnewyddu polisiau a phrosesau allweddol.**

2023-2024 oedd blwyddyn gyntaf ein Cynllun Pobl newydd ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Er mwyn cefnogi cydweithwyr i berfformio ar eu gorau, lansiwyd ein proses Arfarniadau Uchelgeisiol newydd gyda mwy o ffocws ar atebolrwydd a chysondeb. Lansiwyd Hyfforddiant Hanfodion Rheoli hefyd, sy'n helpu rheolwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn rheolwr yn yr NMC ac sy'n sicrhau ymagwedd weithredu gyson ar draws y sefydliad. Cymerodd 250 o reolwyr ran yn 2023-2024, gyda mwyafrif y mynychwyr yn dweud ei bod yn amhrisiadwy dysgu gyda grŵp cyfoedion. Fe wnaethom hefyd ddiwygio ein strwythurau gwobrwyo (manylion pellach yn ein hadroddiad tâl) ac adnewyddu polisiau a phrosesau allweddol i wella profiad cydweithwyr yn y gweithle.

Ers mis Hydref 2020 rydym wedi cynnal rhaglen fentora o'r enw Codi Gyda'n Gilydd, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r diffyg dilyniant i gydweithwyr, yn arbennig cydweithwyr Du a

lleiafrifoedd ethnig, i rolau uwch. Eleni, i gryfhau'r ymagwedd hon, fe wnaethom ddatblygu'r rhaglen Codi'n Uwch i ddarparu cymorth, gweithdai a hyfforddiant ychwanegol i gydweithwyr sydd wedi cwblhau Codi Gyda'n Gilydd. Rydym yn gwybod na fydd y rhaglenni hyn ar eu pen eu hunain yn cael gwared ar y rhwystrau y mae cydweithwyr yn eu hwynebu, ond maent yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cydweithwyr i ddatgymalu rhai o'r heriau mewn ffordd gydweithredol. Mae hyn yn cysylltu â gwaith yn ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynllun Pobl ehangach, gan gynnwys datblygu hyfforddiant recriwtio cynhwysol a gwaith ymgysylltu i dargedu pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ffeiriau swyddi a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r pryderon a godwyd am ein diwylliant (gweler tudalen 24) wedi ysgogi cyfnod pwysig o fyfyrto y mae mawr ei angen. Yng ngoleuni'r argymhellion o'r ymchwiliadau annibynnol, byddwn ni'n ailedrych ar ein blaenoriaethau ar Bobl a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd camau yn y meysydd sydd eu hangen fwyaf i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi pob cydweithiwr i berfformio ar ei orau.

“Mae fy mhrofiad gyda’r rhaglen wedi bod yn wirioneddol gyfoethog. Trwy gyfleoedd rhwydweithio a throchi mewn gwahanol brosesau, rwyf wedi gallu ehangu fy ngwybodaeth a’r set sgiliau yn sylweddol.”



mentorai Codi Gyda’n Gilydd

## Cynaliadwyedd Corfforaethol

**Gweithgarwch allweddol yn 2023-2024: Cyhoeddwyd ein cynllun cynaliadwyedd amgylcheddol cyntaf, sy’n amlinellu ein huchelgais i leihau ein heffaith amgylcheddol, hyrwyddo arfer cynaliadwy ymhlith nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio a meithrin ein gallu i wrthsefyll risgiau i’r hinsawdd.**

Rydym yn cydnabod effaith ddifrifol yr argyfwng hinsawdd a’i effeithiau ar iechyd pobl. Rydym wedi ymrwymo i weithredu’n gynaliadwy a chefnogi’r rhai sy’n gweithio yn y sector iechyd a gofal i wneud hynny, yn arbennig wrth leihau allyriadau carbon. Rydym yn gwybod fod y mater hwn yn bwysig i nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio, ac rydym am annog a chefnogi newid cynaliadwy ar draws y sector, er budd y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a’r bobl y maent yn gofalu amdanynt, am genedlaethau i ddod.

Yn gynharach yn 2024, cyhoeddwyd ein [cynllun cynaliadwyedd amgylcheddol](#). Mae hwn yn amlinellu ein huchelgais i (1) leihau ein heffaith amgylcheddol, (2) hyrwyddo arfer cynaliadwy ymhlith nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio a (3) meithrin ein gallu i wrthsefyll risgiau hinsawdd.

Er bod y cynllun hwn yn pennu cyfeiriad cychwynnol ar gyfer y daith hon, bydd angen ei adolygu a’i ddatblygu wrth i ni addasu i amgylchiadau sy’n newid. Mae targedau carbon allweddol y cynllun yn cynnwys bod yn garbon niwtral ar draws yr holl allyriadau erbyn 2030, bod yn sero net ar gyfer allyriadau cwmpas 1 a 2 (diffiniad yn y tabl isod) ar bob safle erbyn 2035 a bod yn sero net ar gyfer yr holl allyriadau erbyn 2040. Mae ein heffaith garbon gwirioneddol, sy’n weddol safonol ar gyfer sefydliad o’n math a’n maint ni, wedi’i nodi yn y tabl canlynol. Mae hyn yn adlewyrchu’r cyntaf o’n diweddariadau blynyddol ar effaith ers cyhoeddi ein cynllun.

Tunelli o Garbon Deuocsid cyfwerth (tCO <sub>2</sub> e)	2022-2023	2023-2024
Cwmpas 1 (allyriadau uniongyrchol, er enghraifft, gwresogi nwy)	155	135
Cwmpas 2 (allyriadau trydan a brynwyd)	45	33
Cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol gan gyflenwyr)	2,005	1,915
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,205</b>	<b>2,083</b>

Nodyn: Mae allyriadau 2022-2023 ychydig yn wahanol i'r rhai yn ein cynllun cynaliadwyedd amgylcheddol gan eu bod wedi'u haddasu i adlewyrchu rhai gwelliannau methodolegol dilynol yn ein mesuriadau, gan gynnwys rhai newidiadau a wnaed gan y Llywodraeth i ffactorau allyriadau safonol. Mae hyn yn golygu bod y data uchod yn cael eu cyfrifo ar sail gyson.

Rydym yn targedu mesurau penodol i wella hyn fel rhan o'n busnes craidd. Mae ein contract trydan yn 23 Portland Place wedi symud i dariff di-garbon net o fis Ebrill 2024. Mewn technoleg, bydd ein trosglwyddiad data i ddarparwr cwmwl sero net yn lleihau ein hallyriadau gweithredol yn

sylweddol ac mae eisoes ar y gweill, fel y mae craffu ar ein cadwyn cyflenwi ehangach. Rydym hefyd yn monitro ac yn mesur effaith carbon ein portffolio buddsoddi ac yn cau allan buddsoddi mewn cwmnïau sy'n cynhyrchu tanwydd ffosil.

## Cyflawni ein cynllun corfforaethol yn 2023-2024

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Mae'n ein helpu i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio a gwireddu ein gweledigaeth o ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, caredig ac effeithiol sy'n gwella iechyd a lles pawb.

Yn ystod 2023-2024, fe wnaethom rywfaint o gynnydd pwysig ar ein cynllun dwy flynedd ar gyfer 2023-2025. Buom yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid i archwilio a ddylid rheoleiddio arfer uwch ymhellach, gan arwain at y penderfyniad i ddatblygu cyfuniad

o ymagweddau rheoleiddio ychwanegol (gweler tudalen 16). Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad mewnwelediad blynyddol cyntaf erioed, [Sbotolau ar Nyrsio a Bydwreigiaeth](#) i rannu mewnwelediadau am ansawdd a diogelwch gofal, ac i helpu i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol o fewn y sector er budd y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd sy'n derbyn gofal.

Ond roedd meysydd hefyd lle na wnaethom y cynnydd yr oeddem yn ei ddymuno. Rydym yn hynod siomedig na wnaethom gyrraedd ein targed ar gyfer gwella'r amser y mae'n ei gymryd i reoli pryderon am weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth (gallwch chi weld rhagor o fanylion am hyn ar dudalen 22). Codwyd pryderon hefyd am ein diwylliant a'n heffeithiolrwydd fel rheolydd (gweler rhagor o fanylion ar dudalen 24).

Pan yw'r cyd-destun yn newid, felly hefyd y mae'r cynllun. Fe wnaethom ystyried yn ofalus y ffordd orau o ymateb i'r heriau hyn a phenderfynwyd y dylem oedi rhywfaint o'r gwaith yn ein cynllun corfforaethol fel y gallwn ni ailffocysu ein hymdrechion achyflawni'r gorau i bobl dros y ddwy flynedd nesaf (darllenwch ragor ar dudalen 40).

## Gwella ac arloesi

### Ymrwymiad corfforaethol

Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio er mwyn sicrhau ein bod yn prosesu achosion mewn modd amserol, diogel, cymesur ac effeithlon.

### Effaith

Bydd y gwaith hwn yn lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer ymhellach drwy wella ein cynhyrchiant, gan wneud yn siŵr bod prosesu yn amserol ac yn gymesur, tra'n cynnal diogelwch, a'n bod yn gwario arian yn effeithiol.

- Bydd achosion addasrwydd i ymarfer pobl yn dod i ben yn ddiogel ac yn gyflymach.
- Os na allwn ni helpu pobl gyda'u pryderon, byddwn ni'n eu cyfeirio cyn gynted â phosibl at sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i helpu.
- Byddwn ni'n cefnogi pobl yn fwy yn ystod y broses addasrwydd i ymarfer. Er enghraifft, trwy gymorth cyfryngol i'w helpu i ymgysylltu neu drwy ganllawiau cliriach ar ein gwefan.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Wedi colli'r trywydd:** Gallwch ddarllen rhagor am y camau yr ydym yn eu cymryd mewn ymateb ar dudalen 22.

## Ymrwymiad corfforaethol

Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i wneud yn siŵr bod ein prosesau'n deg i bawb.

## Effaith

Trwy'r gwaith hwn:

- Byddwn ni'n gallu ymateb yn fwy effeithiol a rhoi sicrwydd i bobl drwy feithrin hyder, ymwybyddiaeth a gwybodaeth ein holl gydweithwyr ar faterion EDI.
- Byddwn ni'n helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a'r anghydraddoldeb a wynebwr gan weithwyr proffesiynol, a fydd yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ym mhrofiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol.
- Byddwn ni'n ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml i'n helpu i ddeall, a gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl yn eu profi a allai eu hatal rhag derbyn gofal da.

## Statws ar 31 Mawrth 2024

**Peth oedi ac ansicrwydd:** Gallwch ddarllen rhagor am y gwaith hwn a'r camau yr ydym yn eu cymryd ar dudalen 25.

Ailymwelir â'r gwaith hwn yng ngolau'r argymhellion o'r ymchwiliadau annibynnol, gan adlewyrchu'r canfyddiadau difrifol yn yr adroddiadau.

## Ymrwymiad corfforaethol

Cau'r gofrestr argyfwng Covid-19.

## Effaith

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom greu cofrestr dros dro yn cynnwys gweithwyr proffesiynol yr oeddem yn eu hystyried yn addas, yn briodol ac yn brofiadol i weithio i gefnogi argyfwng Covid-19. Gyda diwedd pandemig Covid-19, caewyd y gofrestr dros dro ar 31 Mawrth 2024.

## Statws ar 31 Mawrth 2024

**Wedi'i gwblhau:** Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar dudalen 13.

## Ymrwymiad corfforaethol

Gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyflwyno rhaglen sylweddol o ddiwygio rheoleiddiol i ddileu rhwystrau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar welliannau yn y ffordd yr ydym yn rheoleiddio.

## Effaith

Wrth i gymdeithas ac arferion nyrsio a bydwreigiaeth newid, mae ein deddfwriaeth, a ysgrifennwyd yn 2001, wedi methu â chadw i fyny. Mae'n rhy ragnodol ac mae'n anodd ei newid. Mae'n hanfodol bod ein fframwaith cyfreithiol yn cael ei ddiweddarau'n fuan fel bod gennym yr offer cywir i reoleiddio'n dda, ac fel y gallwn ni gefnogi'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn well i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl a chymunedau. Bydd deddfwriaeth ddiwygiedig yn ein helpu i gyflawni rheoleiddio gwell a mwy diogel:

- Bydd ein cofrestr yn gliriach ac yn haws i'r cyhoedd ei deall a gall pobl fod yn hyderus bod pawb sy'n defnyddio'r teitl 'nyrs' ar ein cofrestr.
- Byddwn ni'n gweithredu'n gyflymach i ddiogelu'r cyhoedd os na all rhywun fodloni'r safonau hyfedredd neu ymddygiad gofynnol, tra'n annog dysgu o gamgymeriadau gwirioneddol.
- Byddwn ni'n cryfhau ein hymagwedd at sicrwydd ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth, fel y byddwn ni'n gallu ymyrryd yn fwy effeithiol i sicrhau bod y safonau uchel y mae'r cyhoedd yn eu haeddu yn cael eu cynnal.

## Statws ar 31 Mawrth 2024

Ar y trywydd iawn.

## Ymrwymiad corfforaethol

Parhau i sicrhau bod y gallu archwilio clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE) yn bodloni'r galw ac archwilio ffyrdd o wella mynediad.

## Effaith

Mewn rhai amgylchiadau gall gweithwyr proffesiynol arddangos eu bod yn bodloni ein safonau trwy gymryd yr OSCE. Mae darparu'r lefel gywir o gapasiti OSCE yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i symud ymlaen drwy ein proses ymgeisio i gofrestru ac ennill cofrestriad yn y DU, gan helpu i hybu darpariaeth gofal nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU.

## Statws ar 31 Mawrth 2024

Ar y trywydd iawn: Mae monitro sydd wedi'i gwblhau a pharhaus yn rhan o'n busnes fel arfer.



### Ymrwymiad corfforaethol

Cyflawni newid polisi a deddfwriaethol er mwyn galluogi ymagweddau newydd at gofrestru'n rhyngwladol, gan gynnwys adolygiad pellach o ganllawiau Saesneg i sicrhau eu bod yn deg.

### Effaith

Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol lwybr clir a llyfn at ein cofrestr, gan alluogi'r cyhoedd i gael mynediad cynyddol at ofal diogel, caredig ac effeithiol.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

Ar y trywydd iawn.

## Cymorth rhagweithiol i weithwyr proffesiynol

### Ymrwymiad corfforaethol

Adolygu rheoleiddio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth uwch.

### Effaith

Rydym yn gwybod fod rolau ymarfer uwch o fudd i'r cyhoedd. Trwy'r gwaith hwn, fe wnaethom adolygu a oes angen rheoleiddio penodol ar gyfer y rolau hyn i sicrhau gofal diogel, caredig ac effeithiol.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Ar y trywydd iawn:** Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar dudalen 16.

## Ymrwymiad corfforaethol

Darparu mwy o hyblygrwydd mewn addysg a hyfforddiant cyn cofrestru ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth drwy lansio safonau newydd ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU.

## Effaith

Bydd ein safonau diwygiedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i addysgwyr drefnu a chyflwyno eu rhaglenni, a fydd yn sicrhau'r manteision canlynol:

- Bydd yn ehangu cyfranogiad mewn rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth trwy hyblygrwydd o ran meini prawf derbyn, gan greu cyfleoedd newydd, mwy cynhwysol i bobl ymuno â'r proffesiynau.
- Bydd myfyrwyr yn gallu datblygu eu hyder a'u hyfedredd mewn sefyllfaoedd ymarfer amrywiol trwy fwy o ddysgu ymarfer efelychiadol, a fydd yn ei dro o fudd i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.
- Bydd angen i fydwragedd sy'n fyfyrwyr gael profiad o arwain a gweithio mewn tîm gyda gwahanol ddarparwyr mamolaeth, i'w galluogi i brofi gwahanol ymagweddau at ddarparu gofal bydwreigiaeth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Statws ar 31 Mawrth 2024

Ar y trywydd iawn.

### Ymrwymiad corfforaethol

Gweithredu ymagwedd newydd sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n gymesur â sicrhau ansawdd addysg sy'n ein galluogi i gael trosolwg mwy cyfannol o sefydliadau a'u rhaglenni i wneud ymyriadau priodol.

### Effaith

Drwy'r gwaith hwn byddwn ni'n gwella'r ffyrdd yr ydym yn casglu, cofnodi a dadansoddi data ar ein sefydliadau addysg cymeradwy a'u rhaglenni. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud mwy o ymyriadau wedi'u targedu lle byddwn ni'n nodi pryderon posibl ac yn cryfhau ein ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn ni'n gallu gwneud mwy i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu haddysgu i'n safonau, sy'n eu cefnogi i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig. Byddwn ni'n defnyddio data a gwell dealltwriaeth o faterion ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i wneud yn siŵr bod rhaglenni'n gynhwysol i bob myfyriwr.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Wedi colli'r trywydd:** Gallwch ddarllen rhagor am y camau yr ydym yn eu cymryd mewn ymateb ar dudalen 19.

## Yn fwy amlwg ac yn fwy gwybodusv

### Ymrwymiad corfforaethol

Meithrin ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol trwy ymgyrchoedd wedi'u targedu i adeiladu ymwybyddiaeth o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a beth rydym yn sefyll drosto.

### Effaith

Byddwn ni'n cynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i feithrin ymgysylltiad ac ymddiriedaeth gyda'r cyhoedd, myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol fel y bydd ganddynt ddealltwriaeth ehangach o'n rôl a sut rydym yn rheoleiddio, yn cefnogi ac yn dylanwadu.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Peth oedi oherwydd saib:** Peth oedi wrth i waith mewnwelediad cynulleidfa gael ei ohirio oherwydd saib wrth ddatblygu strategaeth ac oherwydd pwysau ar randdeiliaid. Cymerwyd penderfyniadau i oedi er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau o'n negeseuon allweddol.

### Ymrwymiad corfforaethol

Ehangu ein hallgymorth cenedlaethol a lleol i ymgorffori rheoleiddio, cymorth a dylanwad ar lefel leol.

### Effaith

Trwy'r gwaith hwn:

- Byddwn ni'n ehangu ein cymorth i ystod ehangach o wasanaethau a lleoliadau, gan gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel lle bynnag y maent yn ymarfer.
- Byddwn ni'n helpu i wella lleoliadau lle mae pobl yn cael mynediad at ofal trwy greu system gydgyssylltiedig, lle rydym yn rhannu ein dysgu a'n gwybodaeth gyda rheoleiddwyr eraill, cyflogwyr a rhanddeiliaid ehangach.
- Byddwn ni'n cefnogi'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy werthfawrogi eu cyfraniadau, cynnal safonau ar gyfer y proffesiynau a defnyddio ein cyngor i osgoi atgyfeiriadau na allwn weithredu arnynt.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Peth oedi** wrth i recriwtio ar gyfer ehangu capasiti cynghori gael ei ohirio er mwyn mynd i'r afael â gweithgarwch blaenoriaethol arall.

## Grymuso ac ymgysylltu

### Ymrwymiad corfforaethol

Creu gwefan fodern a hygyrch sy'n portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn darparu ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebu ac ymgysylltu.

### Effaith

Rydym am greu gwefan fodern a hygyrch sy'n portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn cyflawni ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebu a'n hymgysylltu. Rydym am ei gwneud yn haws i bobl sy'n defnyddio ein gwefan ddod o hyd i wybodaeth am ein gwasanaethau a deall sut maent yn gweithio.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Seibio:** Mae'r gwaith hwn wedi'i oedi fel y gallwn ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar ein blaenoriaethau allweddol y cytunwyd arnynt yn ddiweddar.

## Mwy o fewnwelediad a dylanwad

### Ymrwymiad corfforaethol

Gwella ein mewnwelediad a'i ddefnyddio i wella ein dylanwad a'n dylanwad rheoleiddiol yn y sector.

### Effaith

Trwy'r gwaith hwn:

- Byddwn ni'n rhannu ein mewnwelediadau i amlygu materion y gwyddom sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch y gofal y mae pobl yn ei dderbyn, megis prinder yn y gweithlu a diwylliannau sefydliadol gwael.
- Byddwn ni'n gwella ein data am wahanol gynulleidfaoedd fel ein bod yn deall yr effaith a gawn ar bobl â nodweddion gwahanol ynghylch amrywiaeth ac yn mynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd.
- Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i rannu data a mewnwelediadau i ddeall yn well a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gofal gwael, fel y rheini ym maes mamolaeth.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

Ar y trywydd iawn

## Addas ar gyfer y dyfodol

### Ymrwymiad corfforaethol

Cyflawni ein Cynllun Pobl sy'n cefnogi ein cydweithwyr i gael eu cynnwys, eu cadw a'u cefnogi i gyflawni ein strategaeth.

### Effaith

Yn seiliedig ar adborth cydweithwyr yr NMC, byddwn ni'n gweithredu mentrau allweddol i fynd i'r afael â'r materion sydd o bwys iddynt megis ein pecyn gwobrau, datblygu arweinwyr a dilyniant mewnol.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

Er y cafodd cynnydd da ei wneud mewn cyflawni gweithredoedd yn erbyn cynllun diwygiedig (gweler tudalen 26), rydym yn cydnabod y bydd angen i'r gwaith hwn gael ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu canfyddiadau difrifol yr ymchwiliadau annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliannau cynaliedig.

### Ymrwymiad corfforaethol

Gwella'r ffordd yr ydym wedi'n strwythuro fel y gallwn ni gyflawni ein strategaeth.

### Effaith

Trwy'r gwaith hwn byddwn ni'n gwneud newidiadau strwythurol wedi'u targedu fel y gallwn ni gyflawni ein swyddogaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol yn y tymor canolig, a fydd yn ei dro yn cefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddarparu gofal gwell i'r cyhoedd.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Seibio:** Mae'r gwaith hwn wedi'i oedi fel y gallwn ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar ein blaenoriaethau allweddol y cytunwyd arnynt yn ddiweddar.

### Ymrwymiad corfforaethol

Diweddarau'r systemau digidol sy'n cefnogi sut rydym yn rheoleiddio i wella'r profiad i'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr.

### Effaith

Rydym am ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â ni ac i gydweithwyr yr NMC wneud eu gwaith, gan gefnogi'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth i ddarparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae moderneiddio ein systemau digidol yn gwella ein prosesau a'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â ni, sy'n ein galluogi i ddatblygu achosion addasrwydd i ymarfer yn ddiogel ac yn gyflym sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Ar y trywydd iawn**

### Ymrwymiad corfforaethol

Cyflwyno TG gyfoes drwy ein rhaglen gwella technoleg a busnes craidd i wella ein heffeithlonrwydd.

### Effaith

Trwy sicrhau bod ein technoleg yn addas at y diben rydym yn galluogi cydweithwyr i wneud eu gwaith yn effeithiol, gan gynnwys ymateb yn brydlon i ymholiadau gan weithwyr proffesiynol, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Trwy fuddsoddi mewn technoleg gyfoes, rydym yn lleihau ein risg seiberddiogelwch, sy'n ein galluogi i ddiogelu'n well y data sydd gennym ar y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau (ariannol a phobl).

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Rhywfaint o oedi:** Peth oedi gan fod rhai elfennau o'r gwaith hwn wedi'u haildrefnu.

### Ymrwymiad corfforaethol

Creu mannau gwaith modern sy'n cefnogi lles a chydweithio.

### Effaith

Rydym am greu amgylchedd cynhwysol, hygyrch a diogel i bob cydweithiwr, fel y gallant fod yn 'orau' yn yr hyn a wnânt. Mae hyn yn ein galluogi i ddenu a chadw'r gweithlu gorau a darparu amgylchedd sy'n darparu ar gyfer cydweithwyr o gefndiroedd amrywiol, sy'n rhan allweddol o'n gwerthoedd a'r math o ddiwylliant sefydliadol yr ydym am ei adeiladu.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Rhywfaint o oedi:** Mae'r gwaith adnewyddu llawn ar 23 Portland Place wedi'i oedi er mwyn i ni allu canolbwyntio ein hymdrechion ar ein blaenoriaethau allweddol y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i greu mwy o ofod cydweithio ac i wneud ein derbynfa'n fwy croesawgar i'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid sy'n ymweld â ni.

### Ymrwymiad corfforaethol

Gweithredu cynllun cynaliadwyedd ac amgylcheddol yr NMC.

### Effaith

Rydym yn cydnabod effaith ddifrifol yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol. O dywydd poeth i lygredd aer, mae newid hinsawdd a materion amgylcheddol eraill yn bygwth iechyd pobl yn y DU a ledled y byd. Rydym, felly, wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy a chefnogi'r rhai sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal i wneud yr un peth, yn arbennig o ran lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n sbarduno newid yn yr hinsawdd.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Ar y trywydd iawn:** Ar y trywydd iawn. Gallwch ddarllen rhagoram y gwaith hwn ar dudalen 27.

### Ymrwymiad corfforaethol

Gweithredu safonau newydd y Gymraeg.

### Effaith

Yn unol â'r gofynion newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi rhoi mecanweithiau ar waith i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac i alluogi ein cydweithwyr i ddeall a diwallu anghenion aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

### Statws ar 31 Mawrth 2024

**Cyflawn**





# Cynllun Strategol ar gyfer 2024-2026

---

Fel y mae ein hadolygiad perfformiad yn ei amlygu, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn ddarlun cymysg o gamau rheoleiddio pwysig a heriau sefydliadol sylweddol. Rydym wedi ystyried yn ofalus y ffordd orau o ymateb i'r heriau hyn drwy ailffocysu ein hymdrechion i feithrin y gallu cywir i ddarparu'r gorau i bobl dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym wedi nodi pum canlyniad blaenoriaethol rhwng nawr a 2026. Rydym hefyd yn rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol i'n gwaith yr ydym yn eu hwynebu. Bydd hyn yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth a dod yn NMC gwell. Yn y pen draw, bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael profiadau gwell a mwy diogel os byddwn ni'n gwneud newidiadau a gwelliannau hanfodol i feysydd allweddol o'n gwaith, ein diwylliant a sut rydym yn rhingweithio â phobl. Byddwn ni'n monitro ac yn adolygu ein cynnydd yn ôl y cynllun, gan aros yn hyblyg i'r dirwedd ehangach ac addasu lle bo angen i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio.

### Canlyniad 1

#### **Byddwn ni'n datblygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer mewn ffordd amserol a chynaliadwy sy'n cadw pobl yn ddiogel.**

Rydym am i'n proses addasrwydd i ymarfer fod yn amserol, yn ystyriol ac yn syml i bawb dan sylw. Mae angen i atgyfeirwyr a gweithwyr proffesiynol gael delio â'u hachosion yn effeithiol ac mewn modd amserol, dylai cyflogwyr ddeall pryd i atgyfeirio eu cyflogeion, a dylai ein pobl deimlo'n falch o weithio i'r NMC a gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Byddwn ni'n newid galluoedd a systemau'n sylweddol drwy sefydlu cynllun 18 mis newydd gyda'r buddsoddiad mwyaf ym maes addasrwydd i ymarfer ers dros ddegawd. Bydd hyn yn gwella sut rydym yn gweithio fel y gallwn ni wneud penderfyniadau amserol, ystyriol ac o safon i gadw pobl yn ddiogel mewn ffordd sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

### Canlyniad 2

#### **Byddwn ni'n adeiladu diwylliant dysgu agored, cynhwysol a pherfformiad uchel gyda thegwch a chydaddoldeb yn ganolog iddo.**

Rydym am gael diwylliant agored, cynhwysol sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn dathlu amrywiaeth, yn hyrwyddo cynhwysiant, ac yn cydfynd â'n gwerthoedd o garedigrwydd, tegwch, uchelgais a chydweithio. Mae hyn yn allweddol i alluogi pawb i berfformio ar eu gorau a dysgu a thyfu yn eu rolau, fel ein bod yn cynnal safonau proffesiynol ar gyfer gofal nyrsio a bydwreigiaeth a gwella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Canlyniad 3

**Byddwn ni'n parhau i foderneiddio ein systemau a'n prosesau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol.**

Byddwn ni'n sicrhau rheoleiddio gwell, mwy diogel er budd y cyhoedd gyda chofrestr well sy'n haws ei defnyddio a'i deall. Bydd ein systemau digidol rheoleiddiol yn cael eu diweddarau, gan ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â ni ac i gydweithwyr yr NMC wneud eu gwaith, gan gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd gan bawb hyder a ffydd ein bod yn cadw eu gwybodaeth yn ddiogel.

### Canlyniad 4

**Byddwn yn llywio ac yn cefnogi gweithredu strategaethau gweithlu ar draws pedair gwlad y DU gan helpu gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol.**

Bydd partneriaid a'r sector ehangach yn elwa o'n mewnwelediad ac yn gallu ei ddefnyddio i lywio a gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu a gwella gofal i bobl. Bydd y ffordd rydym yn rheoleiddio yn helpu gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i addasu i heriau'r dyfodol, gan gynnwys anghenion newidiol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

### Canlyniad 5

**Byddwn ni'n cryfhau prosesau a gweithdrefnau i ddiogelu uniondeb ein cofrestr fel y gall y cyhoedd barhau i fod â hyder yn ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn.**

Bydd gan y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ymddiriedaeth a hyder yn ansawdd addysg, sgiliau a chymhwysedd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig i ddiogelu'r cyhoedd a ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl a'u cymunedau.

# Adolygiad Ariannol

---

## Incwm a gwariant

Cyfanswm ein hincwm ar gyfer 2023–2024 oedd £107.2 miliwn (2022–2023: £102.9 miliwn) a chyfanswm y gwariant oedd £108.3 miliwn (2022–2023: £98.1 miliwn). Mae hyn wedi arwain at ddiffyg incwm net dros wariant o £1.1 miliwn (2022–2023: gwarged o £4.8 miliwn) cyn yr enillion ar ein buddsoddiadau a'r symudiad net ar yr enillion actiwaraid a'r addasiad uchafswm asedau ar y cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Ar ôl ystyried y rhain, cyfanswm ein cronfeydd oedd £78.9 miliwn (2022–2023: £76.8 miliwn).

Roeddem wedi cynllunio ar gyfer diffyg o £8.0 miliwn yn 2023–2024 cyn enillion neu golledion ar fuddsoddiadau. Mae'r alldro diffyg llai yn bennaf oherwydd incwm iachach na'r disgwyl, ynghyd â gwariant ychydig yn is ar draws ein busnes craidd ac ar ein gweithgareddau corfforaethol. Roedd ein gwariant ar raglenni a phrosiectau hefyd yn is na'r disgwyl oherwydd amseru'r cyflwyno, gyda rhai costau'n cael eu gohirio tan flynyddoedd y dyfodol.

Incwm o ffioedd cofrestru ac ymgeisio oedd £103.3 miliwn, ar y blaen i'r gyllideb, ac yn gynnydd arwyddocaol o 2.9 y cant ar y flwyddyn flaenorol (2022–2023: £100.4 miliwn). Sbardunwyd hyn gan gynnydd o 4.8 y cant yn nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr barhaol, i 826,418 ar 31 Mawrth 2024, a chan y cynnydd mewn ceisiadau gan weithwyr proffesiynol rhyngwladol. Mae parhad y ddau gynnydd hyn yn y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr yng nghyd-destun proffil oedran cynyddol ar gyfer y gofrestr a'r ansefydlogrwydd cyffredinol yn nifer y ceisiadau rhyngwladol. Ni wnaeth parhad y gofrestr dros dro tan fis Mawrth 2024 gael effaith ar ein hincwm ffioedd gan nad oedd y gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr dros dro yn talu ffi.

Mae ein 'hincwm arall' yn cynnwys £0.07 miliwn (2022–2023: £0.11 miliwn) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), sy'n ein had-dalu am gostau cynnal y gofrestr dros dro.

Roedd cyfanswm ein gwariant o £108.3 miliwn £2.8 miliwn (2.5 y cant) yn is na'r hyn a gyllidebwyd gennym ond £10.2 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd o un flwyddyn i'r llall mewn gwariant i'w briodoli'n bennaf i sawl sbardun cost sylweddol gan gynnwys buddsoddiad ychwanegol mewn gweithrediadau addasrwydd i ymarfer (wedi'i anelu at leihau llwyth achosion) a'r cynnydd mewn chwyddiant gyda'i effaith ganlyniadol ar gostau cyflogres a rhai nad ydynt yn ymwneud â'r gyflogres. Deilliodd y tanwariant yn ôl y gyllideb yn 2023–2024 o sawl ffactor gan gynnwys llithriad mewn recriwtio i lenwi swyddi gwag, a rhywfaint o ohirio gwariant ar brosiectau a rhaglenni. Roedd cynnydd llai na'r hyn a gyllidebwyd yn narpariaeth tâl gwyliau panelwyr, oherwydd newid yn y dull asesu, hefyd yn ffactor.

Mae Nodyn 5 i'r cyfrifon yn nodi ein costau a ddyrannwyd yn llawn ar gyfer pob gweithgaredd elusennol fel sy'n ofynnol gan y Datganiad Elusennau o Arferion Cymeradwy (SORP). Mae hyn yn gwahanu costau uniongyrchol pob gweithgaredd ochr yn ochr â'r costau cymorth cysylltiedig sydd wedi'u dyrannu gan ddefnyddio cyfrif pennau neu orbenion. Mae'r sylwebaeth sy'n dilyn yn seiliedig ar y golofn cost uniongyrchol cyn dyrannu costau cynnal.

Roedd costau uniongyrchol addasrwydd i ymarfer yn £53.2 miliwn, cynnydd sylweddol ar £48.0 miliwn yn 2022–2023. Mae hyn wedi'i ysgogi gan fuddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn sydd ei angen i wella'r amseroldeb wrth ymdrin ag achosion yn ddiogel ac yn gyflym o dan Gynllun Addasrwydd i Ymarfer diwygiedig.

Mae hyn yn diogelu'r cyhoedd drwy gyflawni mwy o benderfyniadau mwy amserol a chymesur, ac yn lleihau'r gofid i'r rhai dan sylw, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni.

Mae hefyd yn creu galwadau ariannol sylweddol wrth i ni symud at wella prydlondeb ymhellach wrth ymdrin ag achosion. Dyma'r sbardun allweddol y tu ôl i'n buddsoddiad pellach arfaethedig ym maes addasrwydd i ymarfer yn ystod 2024–2025 a 2025–2026. Mae heriau recriwtio yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu bod buddsoddi yn y maes hwn wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae rhai costau wedi'u gohirio tan flynyddoedd diweddarach. O ganlyniad, rydym wedi cyllidebu'n ddangosol ar gyfer diffygion yn y ddwy flynedd nesaf wrth i ni weithio i leihau'r amser a gymerir i gwblhau achosion, sy'n galw am fuddsoddiad ychwanegol sylweddol. Mae hyn yn bosibl oherwydd ein lefel gref o gronfeydd rhydd wrth gefn.

Roedd costau uniongyrchol cynnal y gofrestr yn £5.6 miliwn yn 2023–2024 (2022–2023: £5.5 miliwn).

Roedd y costau cymorth cyffredinol (gan gynnwys cyfleusterau, cyllid, pobl a thechnoleg) yn £35.6 miliwn (2022–2023: £32.3 million).

## Pensiynau

Mae gan yr NMC ddau gynllun pensiwn: cynllun buddion diffiniedig, a gaewyd i newydd-ddyfodiaid ym mis Tachwedd 2013 ac a gaewyd i gronni buddion yn y dyfodol o 1 Gorffennaf 2021; a chynllun cyfraniadau diffiniedig, y mae pob cyflogai newydd wedi'i gofrestru'n awtomatig iddo.

Mae cyfraniadau'r NMC i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cael eu gwario yn y flwyddyn y maent yn ddyledus.

Mae asedau'r cynllun cyfraniadau diffiniedig i'w priodoli i gyflogeion unigol ac nid ydynt, felly, wedi'u dangos yn ein cyfrifon.

O ran y cynllun pensiwn buddion diffiniedig at ddibenion ein cyfrifon ac yn unol â FRS 102, caiff ei asedau eu hailbriso i werth y farchnad ac mae actiwariaid annibynnol yn diweddarau eu hamcangyfrif o werth y rhwymedigaeth bob blwyddyn. Amcangyfrifir y rhwymedigaeth fel gwerth presennol gostyngol y buddion pensiwn sy'n ddyledus i aelodau'r cynllun. Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o dybiaethau actiwaraid safonol gan gynnwys cyfraddau marwolaethau disgwylidig, chwyddiant ac enillion ar fondiau corfforaethol dros nifer o flynyddoedd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd gwerth marchnad asedau'r cynllun buddion diffiniedig £2.1 miliwn a gostyngodd y rhwymedigaeth £1.4 miliwn, gan arwain at y cynllun yn dangos gwarged net o £14.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Ers nifer o flynyddoedd hyd at ac yn cynnwys 2020–2021 y sefyllfa net ar y cynllun buddion diffiniedig a ddangosir yn ein mantolen oedd diffyg, sef y gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun a gwerth uwch y rhwymedigaeth pensiwn. Fodd bynnag, mae prisiadau FRS 102 ers hynny (31 Mawrth 2022, 2023 a 2024) wedi dangos gwarged gyda gwerth asedau'r cynllun yn uwch na'r rhwymedigaeth amcangyfrifedig. Mae cyngor cyfreithiol wedi cadarnhau bod yr NMC yn adennill y gwarged o'r cynllun pensiwn yn bosibilrwydd anghysbell iawn. Dim ond ar ôl i holl rwymedigaethau'r cynllun gael eu rhyddhau y gallai ddiwydd.

Mae FRS 102 yn datgan “bydd endid yn cydnabod gwarged cynllun fel ased cynllun buddion diffiniedig dim ond i’r graddau y mae’n gallu adennill y gwarged”. O ganlyniad, mae addasiad uchafswm asedau wedi’i gymhwyso i ddod â’r sefyllfa net i sefyllfa lle nad yw’n warged nac yn ddiffyg ar y fantolen.

Dim ond at ddibenion ein cyfrifon y mae’r driniaeth hon o’r gwarged. Mae’r ymddiriedolwyr pensiwn, sy’n annibynnol ar yr NMC, yn cadw rheolaeth dros asedau’r cynllun ac unrhyw warged, sut bynnag y’i cyfrifir, sy’n ymwneud â nhw.

Yn ystod 2022–2023 cwblhawyd adolygiad tair blynedd o’r cynllun buddion diffiniedig hefyd gan ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, yn seiliedig ar ei sefyllfa ar 31 Mawrth 2022. Cyflawnwyd hyn gan yr actiwari a adroddodd i’r ymddiriedolwyr ac roedd at ddiben diffinio a oedd angen i’r NMC gyfrannu taliadau adennill i’r cynllun o hyd i sicrhau bod ganddo ddigon o arian i fodloni rhwymedigaethau disgwylidig. Yn ôl y gofyn, gwnaed hyn yn unol â safonau actiwaraid a’r Rheoleiddiwr Pensiynau yn hytrach nag yn unol â gofynion FRS 102 a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifon.

Roedd canlyniad y prisiad hwn hefyd yn dangos gwarged – hyd yn oed o dan ragdybiaethau gofalus iawn a luniwyd i sicrhau bod gan y cynllun ‘ddibyniaeth isel’ ar y cyflogwr.

O ganlyniad i’r adolygiad tair blynedd hwn sydd hefyd yn dangos gwarged, mae’r ymddiriedolwyr pensiwn annibynnol wedi cytuno â ni nad oes angen taliadau cynllun adfer mwyach. O dan y cynllun adfer blaenorol y cytunwyd arno ag ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, fe wnaethom dalu £1.9 miliwn yn 2022–2023.

Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu yn yr adolygiad tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2025.

## Buddsoddiadau

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn talu eu ffi gofrestru naill ai’n flynyddol neu’n chwarterol ymlaen llaw. Ynghyd â’n cronfeydd rhydd wrth gefn, mae hyn yn golygu bod gennym falansau arian parod sylweddol.

Yn unol â pholisi buddsoddi’r Cyngor, mae gennym oddeutu £38.6 miliwn wedi’i fuddsoddi yn y marchnadoedd stoc ar gyfer y tymor hir gyda chyfradd enillion darged o dri y cant uwchlaw mesur chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (CPI+3 y cant) net o costau rheoli buddsoddiad.

Er ein bod yn cydnabod bod buddsoddi mewn ecwitiau, cronfeydd a bondiau’n peri risg, drwy fuddsoddi drwy reolwyr buddsoddi arbenigol – y mae ein Pwyllgor Buddsoddi yn eu goruchwyllo ac yn craffu ar eu perfformiad – rydym yn disgwyl y bydd buddsoddiad o’r fath yn sicrhau enillion uwch na chwyddiant dros y tymor hir a a thrwy hynny helpu i osgoi neu liniaru’r angen i gynyddu ein ffioedd.

Yn 2023–2024, roedd incwm difidend a llog o’r portffolio, sy’n cael ei ail-fuddsoddi, yn £0.9 miliwn (2022–2023: £0.9 miliwn), ag enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau o £3.1 miliwn (2022–2023: £1.9 miliwn colled) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae’r datganiad o weithgareddau ariannol yn dangos costau rheoli buddsoddiadau o £0.17 miliwn (2022–2023: £0.16 miliwn). Cyfanswm gwerth y gronfa fuddsoddi ar ddiwedd y flwyddyn yw £38.6 miliwn.

Mae hyn yr un fath â'r cyfanswm o £38.6 miliwn yr ydym wedi'i fuddsoddi ers y dechrau ym mis Gorffennaf 2020, sef £33.0 miliwn o gyfalaf wedi'i fuddsoddi a £5.6 miliwn o incwm difidend a llog wedi'i ail-fuddsoddi.

Fel y mae'r cynnydd nas gwirededwyd yn ei ddangos, mae perfformiad eleni wedi gwella o gymharu â'r llynedd, gan adlewyrchu amodau gwell yn y farchnad. O ystyried chwyddiant uchel yn ddiweddar, byddai angen cyfradd twf blynyddol o 8.7 y cant ers dechrau ein portffolio i gyflawni ein cyfradd adennill darged hirdymor o CPI+3 y cant hyd at fis Mawrth 2024. Ein cyfradd twf blynyddol gwirioneddol ers y dechrau yw 6.03 y cant. Serch hynny, gyda chwyddiant yn gostwng, mae gobaith rhesymol o hyd o allu cyflawni ein targed twf hirdymor yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein polisi buddsoddi'n rheolaidd, gan gynnwys ei ddimensiynau moesegol a chynaliadwyedd. Mae ein polisi buddsoddi cyfredol ar gael ar [ein gwefan](#).

Y llog a enillwyd ar ein hadneuon banc yn ystod y flwyddyn oedd £2.9 miliwn (2022-2023: £1.2 miliwn). Mae'r cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd bod cyfraddau llog wedi bod yn sylweddol uwch yn 2023-2024 nag yr oeddent yn 2022-2023. Rydym hefyd wedi bod yn weithgar wrth sicrhau bod ein harian yn cael ei roi mewn cyfrifon cynhyrchiol uchel mewn sefydliadau risg isel.

## Cronfeydd wrth gefn

Ein polisi arian wrth gefn – a ganfyddir yn ein Strategaeth Ariannol – yw cynnal arian rhydd wrth gefn o fewn amrediad targed. Mae cronfeydd wrth gefn rhydd yn gronfeydd sydd ar gael yn barod i'w gwario, felly nid ydynt yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol, asedau sefydlog anniriaethol a symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol. Rydym hefyd yn pennu lefel isaf ar gyfer y balans arian parod a buddsoddiadau cyfanredol a ragwelwyd dros y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'r Cyngor yn adolygu'r ystod darged o gronfeydd rhydd wrth gefn a'r balans isafswm arian parod a buddsoddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Pennir y lefel isaf darged o gronfeydd rhydd wrth gefn i sicrhau ein cynaliadwyedd, gan ystyried diogelwch ein ffrwd incwm, ein balansau arian parod a buddsoddi, ac asesiad o effaith ariannol bosibl y risgiau a wynebwr gan yr NMC. Pennir uchafswm targed y cronfeydd rhydd wrth gefn er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, gan gydbwysu buddiannau'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr sy'n ein hariannu drwy'r ffioedd y maent yn eu talu, a'r cyhoedd sy'n elwa o'n gwaith.

Ym mis Mawrth 2024, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y polisi cronfeydd wrth gefn a chytunwyd y dylai'r ystod darged o gronfeydd rhydd wrth gefn barhau i fod yn sero i £25 miliwn, ac y dylai'r balans isafswm arian parod a buddsoddiadau aros yn £20 miliwn.



Cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2024 oedd £78.9 miliwn (2023: £76.8 miliwn) ac roedd cronfeydd rhydd wrth gefn yn £42.0 miliwn (2023: £44.5 miliwn). Er bod cronfeydd rhydd wrth gefn yn sylweddol uwch na phen uchaf yr ystod darged, mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu ar gyfer buddsoddi a gynlluniwyd dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd y buddsoddi arfaethedig hwn mewn seilwaith technoleg ac addasrwydd i ymarfer yn gwella ein gwasanaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd ac i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Bydd hefyd yn cynhyrchu arbedion arian parod blynyddol sylweddol trwy effeithlonrwydd prosesau sylweddol wrth i ni wella ein rheolaeth achosion.

Mae lefel gref y cronfeydd wrth gefn hefyd yn cefnogi'r sefyllfa o fusnes parhaus a nodir yn nodyn 1a i'r cyfrifon.

**Syr David Warren**  
**Cadeirydd**  
**3 Gorffennaf**  
**2024**

**Andrea Sutcliffe**  
**Prif Weithredwr a**  
**Chofrestrydd**  
**3 Gorffennaf**  
**2024**

# Adroddiad tâl

---

Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer taliadau a chynllunio olyniaeth yn yr NMC, yn ogystal â throsolwg o'r Cynllun Pobl a'r Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er mwyn cyflawni'r cylch gorchwyl hwn, mae'r Pwyllgor yn ystyried yr adolygiad blynyddol o gyflogau cyflogeion, yn ogystal â chynnydd yn ôl y Cynllun Pobl a'r Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac unrhyw newidiadau sylweddol i strwythur tâl a graddfeydd cyflogeion neu gynlluniau pensiwn.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo pecynnau gwobrwyo ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Chyfarwyddwyr Gweithredol ar benodiadau a chodiadau cyflog blynyddol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu eu perfformiad yn flynyddol, yn ogystal â chadw goruchwyliaeth ar gynllunio olyniaeth y Weithrediaeth.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwyllo prosesau penodi aelodau'r Cyngor a Phartneriaid ac yn argymhell i'r Cyngor unrhyw newidiadau i'r lwfansau a delir i'r Cadeirydd, aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner (aelodau o bwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor).

Wrth wneud penderfyniadau ar dâl, mae'r Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys meincnodi'r sector, fforddiadwyedd cyffredinol a'r angen i sicrhau bod ein hymagwedd at gyflogau yn denu

ac yn cadw cydweithwyr yn deg ac yn effeithiol. Mae'r penderfyniadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio data meincnodi a mewnwleidiad gan ymgynghorwyr gwobrwyo.

Roedd meysydd blaenoriaethol eraill y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ystyried cynnydd yn ôl y Cynllun Pobl a'r Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn arbennig o ystyried y pryderon a godwyd am ein diwylliant. Rydym wedi ymrwymo i weithredu ar ganfyddiadau'r ymchwiliadau a byddwn ni'n parhau i adolygu a diwygio ein Cynllun Pobl a'n Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i sicrhau eu bod yn ein cefnogi i wneud newidiadau cynaliadwy.

Er mwyn cydnabod y rôl y mae'r Pwyllgor yn ei chwarae wrth oruchwyllo'r Cynllun Pobl a'r Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, o 1 Ebrill 2024, cafodd y Pwyllgor ei ailenwi'n Bwyllgor Pobl a Diwylliant a diwygiwyd ei gylch gorchwyl i gryfhau ac egluro ei rôl yn y maes hwn.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn archwilio agweddau ariannol yr adroddiad hwn.

## Lwfansau a threuliau'r Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac mae ganddo'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen.

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y Cyngor sy'n gyfrifol am bennu'r lwfansau i'w talu i Gadeirydd y Cyngor, aelodau'r Cyngor, Swyddogion Cyswllt ac aelodau Partner.

Er mwyn rheoli achosion gwrthdaro buddiannau, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer Panel Annibynnol sy'n cynnwys arbenigwyr allanol i asesu lefel briodol y lwfansau. Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd naill ai'n derbyn neu'n gostwng lefel y lwfans a argymhellir gan y Panel ond ni fydd yn ei gynyddu. Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am oruchwyllo sefydlu'r Panel Annibynnol ac adolygu ei ganfyddiadau i'w

hystyried gan y Cyngor. Ystyriwyd yr adolygiad diweddaraf gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad hwnnw, cytunodd y Cyngor ar godiad o dri y cant i lwfans blynyddol aelodau'r Cyngor (o £14,724 i £15,166), cyfradd ddyddiol aelod Partner (o £286 i £295) a lwfans blynyddol Cyswllt (o £10,296 i £10,605). Hwn oedd y cynnydd cyntaf ers 2017. Arhosodd lwfans y Cadeirydd ar £78,000. I gydnabod y cyfrifoldeb ychwanegol a'r ymrwymiad amser i Gadeiryddion Pwyllgorau, cytunwyd y gallai'r rolau hyn dderbyn lwfansau ychwanegol. Pennir y lwfansau hyn gan y Cadeirydd, yn unol â phroses y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Tâl. Ar gyfer 2023-2024, cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol lwfans blynyddol ychwanegol o £2,000 yr un a chafodd Cadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi a'r Pwyllgor Llety lwfans ychwanegol blynyddol cyfunol o £500. Cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt yn 2023-2024 oedd £263,837 (2022-2023: £261,237). Ni wnaed unrhyw daliadau all-gontractiol i unrhyw aelod o'r Cyngor, Aelod Cyswllt neu Bartner yn 2023-2024.

Gwneir taliadau lwfans i aelodau'r Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner drwy'r gyflogres, gyda didyniadau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Caiff treuliau a dynnir yn uniongyrchol wrth gyflawni

dyletswyddau eu had-dalu yn unol â pholisi Teithio, Llety a Threuliau'r Cyngor.

Mae treuliau'n cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth, a chânt eu tynnu pan yw aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r treuliau a dderbynnir gan aelodau'n amrywio'n fawr oherwydd costau teithio a llety ar gyfer mynychu cyfarfodydd o gartrefi ledled y DU, gan gynnwys teithio o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhannau o Loegr sy'n golygu bod angen aros dros nos. Maent hefyd yn amrywio oherwydd bod rhai aelodau'n ymgymryd â mwy o weithgareddau sy'n gofyn am deithio, tra bod eraill yn ymgymryd â mwy o weithgareddau y gellir eu cyflawni'n rhithwir. Lle cynhelir unrhyw gyfarfodydd yn Llundain, ystyrir treuliau yn fuddiant trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE gyda CThEF. Mae'r holl dreuliau a dynnwyd gan aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt wedi'u cynnwys yn Nhabl 1.

Pan yw cyfarfodydd y Cyngor yn Llundain, mae aelodau'n mynychu prydau min nos gydag aelodau o'r Weithrediaeth ac ystyrir bod y prydau hynny'n fuddiant trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE gyda CThEF. Dangosir gwerth y buddiant yn gros, gan gynnwys y dreth incwm y gellir ei phriodoli.

## Y dull a ddefnyddir i asesu perfformiad

Mae'r Cyngor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd. Mae ganddo hefyd bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu perfformiad aelodau'r Cyngor, Swyddogion Cyswllt a Phartneriaid. Cynhelir adolygiad perfformiad Cadeirydd y Cyngor gan yr Is-Gadeiryddion ac mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd, asesiad gan gymheiriaid gan gydweithwyr yn y Cyngor a mewnbwn gan y Pwyllgor Gwaith. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol y Cyngor ac aelodau Cyswllt dan arweiniad y Cadeirydd, a chan Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer aelodau Partner.

# Amrywiaeth ein haelodau Cyngor, Swyddogion Cyswllt ac aelodau Partner

## Oedran

4

41-50

9

51-60

7

61 a throsodd

(2022-2023: 41-50: 2, 51-60: 10, 61 a throsodd: 8)

Dangosir data amrywiaeth, ar 31 Mawrth 2024, ar gyfer ein haelodau Cyngor, Aelodau Cyswllt ac aelodau Partner isod. Roedd cyfanswm o 12 aelod o'r Cyngor, dau Aelod Cyswllt a chwe aelod Partner (31 Mawrth 2023: 12 aelod o'r Cyngor, dau Aelod Cyswllt, chwe aelod Partner).

## Anabledd

18

Dim anabledd

1

Anabledd a ddatganwyd

1

Gwell gennyf beidio â dweud

(2022-2023: Dim anabledd: 18, Anabledd a ddatganwyd: 1, Gwell gennyf beidio â dweud: 1)

## Cyfeiriadedd rhywiol

17

Heterorywiol neu syth

2

Hoyw neu lesbiaidd

1

Gwell gennyf beidio â dweud

(2022-2023: Heterorywiol: 19, Hoyw neu lesbiaidd: 1, Gwell gennyf beidio â dweud: 1)

## Ethnigrwydd

14

Gwyn Prydeinig

2

Indiaidd

1

Bangladeshi

1

Du Affricanaidd

1

Du Caribiaidd

1

Gwyn Gwyddelig

(2022-2023: Gwyn Prydeinig: 15, Du Affricanaidd: 1, Du Caribiaidd: 1, Indiaidd: 1, Gwyn Prydeinig/Gwyddelig: 1, Gwyddelig Gwyn: 1)

## Crefydd neu gred

12

Cristnogol

5

Dim

1

Mwslemaidd

1

Gwell gennyf beidio â dweud

1

Sicaidd

14

Benyw

6

Gwryw

(2022-2023: Cristnogol: 11, Dim: 7, Gwell gennyf beidio â dweud: 1, Sicaidd: 1)

(2022-2023: Benyw: 14, Gwryw: 6)

Fe wnaethom newid ein categorïau monitro amrywiaeth o 1 Ebrill 2024 a bydd y rhain yn cael eu hadrodd yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

**Tabl 1**

**Lwfansau a threuliau'r Cyngor  
(yn amodol ar archwiliad gan y  
Swyddfa Archwilio Genedlaethol)**

	2023-2024				2022-2023			
	Lwfans (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (hyd at y £100 agosaf)	Cyfanswm tâl (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau eraill (hyd at y £100 agosaf)	Lwfans (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (hyd at y £100 agosaf)	Cyfanswm tâl (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau eraill (hyd at y £100 agosaf)
Syr David Warren (Cadeirydd)	75-80	2,100	80-85	1,300	75-80	1,000	75-80	1,700
Syr Hugh Bayley (hyd at 30 Ebrill 2023)	0-5 CALI 15-20	0	0-5	200	15-20	1,800	15-20	600
Yr Athro Karen Cox (hyd at 30 Ebrill 2023)	0-5 CALI 15-20	0	0-5	100	15-20	4,000	15-20	300
Lindsay Foyster (o 1 Mai 2023)	10-15 CALI 15-20	6,800	20-25	400	0	0	0	0
Claire Johnston	15-20	2,500	15-20	700	15-20	2,700	15-20	300
Eileen McEaney MBE	15-20	5,100	20-25	600	15-20	7,800	20-25	0
Dr Margaret McGuire OBE (o 1 Mai 2022)	15-20	4,500	15-20	1,400	10-15 CALI 15-20	7,400	20-25	400
Flo Panel-Coates (o 1 Tachwedd 2023)	5-10 CALI 15-20	800	5-10	0	0	0	0	0
Nadine Pemberton Jn Baptiste (o 1 Mai 2023)	10-15 CALI 15-20	6,100	15-20	0	0	0	0	0
Marta Phillips OBE (o 30 Ebrill 2023)	0-5 CALI 15-20	0	0-5	100	15-20	1,300	15-20	300
Derek Pretty	15-20	3,700	20-25	700	15-20	5,300	20-25	800
Anna Walker CB	15-20	700	15-20	400	15-20	700	15-20	300
Ruth Walker MBE	15-20	4,600	20-25	500	15-20	9,500	20-25	700
Sue Whelan Tracy	15-20	4,700	15-20	300	15-20	3,200	15-20	0
Dr Lynne Wigans OBE	15-20	3,400	15-20	600	15-20	2,500	15-20	300
<b>Cymdeithion</b>								
Jabulani Chikore (o 1 Mawrth 2023)	10-15	500	10-15	700	0-5 CALI 10-15	0	0-5	0
Tracey MacCormack (tan 31 Rhagfyr 2022)	0	0	0	0	5-10 CALI 10-15	400	5-10	300
Dr Gloria Rowland MBE (tan 31 Rhagfyr 2022)	0	0	0	0	5-10 CALI 10-15	400	5-10	200
Navjot Kaur Virk (o 1 Mawrth 2023)	10-15	2,500	10-15	700	0-5 CALI 10-15	500	0-5	0
<b>Cyfansymiau</b>	<b>263.8</b>	<b>47,800</b>	<b>311.7</b>	<b>8,500</b>	<b>261.2</b>	<b>48,700</b>	<b>309.9</b>	<b>6,100</b>

Cyfansymiau'n amodol ar dalgrynnu.

# Tâl yr uwch dîm rheoli ac asesu perfformiad

---

Y Bwrdd Gweithredol yw'r uwch dîm rheoli ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (Prif Weithredwr) a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan gynnwys y rheini mewn rolau dros dro neu interim. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Nid yw unrhyw Gyfarwyddwr Gweithredol yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr yr NMC. Datgelir manylion taliadau tâl yn llawn ar gyfer yr holl unigolion hyn yn nhabl 2.

Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i'r graddau a ddisgrifir yn y Cynllun Dirprwyo (Atodiad 1 i'r Rheolau Sefydlog, paragraffau 6-11) ac a adlewyrchir yn y datganiad llywodraethu blynyddol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Asesu perfformiad y Weithrediaeth

---

Mae'r Pwyllgor Tâl yn adolygu perfformiad holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn flynyddol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd ar berfformiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar berfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

# Tâl y Weithrediaeth

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Bwrdd Gweithredol yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl yn flynyddol yn unol â'r fframwaith tâl y Weithrediaeth a gafodd ei gymeradwyo yn 2016 a'i ddiweddarau yn 2020 i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol newydd a rolau'r Cyfarwyddwr Gweithredol o fewn hyn.

Cytunwyd ar dâl y Weithrediaeth ar gyfer 2023-2024 gan y Pwyllgor Tâl ym mis Chwefror 2023. Yn unol â chyngor gan gynghorwyr annibynnol ym maes tâl gweithredwyr, daeth y Pwyllgor Tâl i'r casgliad y dylai'r Weithrediaeth dderbyn dyfarniad cyflog o 4.0 y cant ar gyfer 2023-2024. Roedd hwn yn ddyfarniad cyflog is nag ar gyfer cyflogeion eraill, a oedd yn gyfartaledd o 7.6 y cant gan gynnwys dilyniant cyflog.

Penodwyd Andrea Sutcliffe yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd yr NMC ar 14 Ionawr 2019. Roedd ei phecyn tâl ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys cyflog sylfaenol o £185,120, cyfraniadau cyflogwr i gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yr NMC o £14,810, taliad untro o £2,136 (fel taliad digolledu am ostyngiad mewn gwyliau blynyddol<sup>1</sup>) a buddion mewn nwyddau o £735, sy'n arwain at ffigwr cyfanswm tâl o £202,801.

Nodir tâl y tîm Gweithredol yn nhabl 2. Talwyd cyfanswm o £1.408 miliwn i'r tîm Gweithredol (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol interim a Chyfarwyddwyr Gweithredol dros dro) yn 2023-2024 (2022-2023 £1.313 miliwn).

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, pan yw cyfarfodydd y Cyngor yn Llundain, mae aelodau'r tîm Gweithredol yn mynychu prydau gyda'r nos gyda'r Cyngor ac ystyrir bod y prydau hynny'n fuddiant trethadwy mewn nwyddau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE gyda CThEF, a dangosir gwerth y buddiant yn gros gan gynnwys y dreth incwm y gellir ei phriodoli. Nid yw'r tîm Gweithredol yn derbyn unrhyw fuddion trethadwy eraill. Yn unol â'r cyfyngiadau a'r prosesau a amlinellir yn ein polisi ar gyfer treuliau cydweithwyr, gall aelodau'r Weithrediaeth hawlio costau teithio, llety a chynhaliaeth wrth ymgymryd â theithiau busnes.

Yn 2023-2024, ni weithredodd yr NMC unrhyw drefniadau tâl neu fonws ar sail perfformiad. Felly ni dderbyniodd yr un o'r Pwyllgor Gwaith unrhyw fonysau perfformiad. Yn unol â'n strategaeth wobrwyo gyfan ar draws y sefydliad, er mwyn adlewyrchu ein hymrwymiaidau i'n cofrestreion a'r cyhoedd yn well, mae cysylltiad cryfach rhwng cyflog sylfaenol a pherfformiad yn cael ei roi ar waith ar gyfer 2024-2025 ymlaen.

Mae contract cyflogaeth Andrea Sutcliffe yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd i derfynu'r contract. Ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol y cyfnod yw tri mis.

<sup>1</sup> Yn flaenorol roedd gan dri aelod o'r tîm Gweithredol hawl i 33 diwrnod o wyliau blynyddol, o gymharu â gweddill y sefydliad a oedd â hawl i 30 diwrnod. Wrth alinio eu hawl i wyliau blynyddol â gweddill y sefydliad, fel cytundeb iawndal, cytunodd y Pwyllgor i daliad pontio untro o gyfradd dydd yr unigolyn am dri diwrnod.



**Tabl 2**

**Tâl y tîm gweithredol (yn amodol ar archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)**

	2023-2024					2022-2023				
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (hyd at y £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm tâl (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau eraill (hyd at y £100 agosaf)	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (hyd at y £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm tâl (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau eraill (hyd at y £100 agosaf)
Andrea Sutcliffe Prif Weithredwr a Chofrestrydd	185-190	700	15,000	200-205	5,200	175-180	800	14,000	185-190	3,100
Ruth Bailey <sup>1</sup> Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol (rhannu swydd) o 7 Tachwedd 2022	90-95 CALI 155-160	500	(1,000)	90-95	300	35-40 CALI 85-90	200	1,000	35-40	0
Lise-Anne Boissiere <sup>1</sup> Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol (rhannu swydd) o 7 Tachwedd 2022	105-110 CALI 145-150	200	15,000	120-125	200	35-40 CALI 85-90	100	5,000	40-45	300
Emma Broadbent <sup>2</sup> Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol Dros Dro rhwng 24 Ionawr 2022 a 30 Medi 2022	0	0	0	0	0	75-80 CALI 150-155	300	11,000	85-90	200
Sam Foster Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol o 27 Mawrth 2023	175-180	700	23,000	200-205	20,300	0-5 CALI 175-180	100	0	0-5	0
Helen Herniman Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Adnoddau a Thechnoleg	160-165 CALI 155-160	500	21,000	180-185	7,900	155-160 CALI 150-155	800	22,000	175-180	1,000
Lesley Maslen Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol o 8 Awst 2022	165-170	700	24,000	190-195	1,700	95-100 CALI 150-155	500	14,000	110-115	600
Matthew McClelland <sup>3</sup> Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad	160-165 CALI 155-160	500	22,000	180-185	1,500	140-145	700	35,000	175-180	1,500
Tom Scott Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Rheoleiddio Proffesiynol Rhwng 8 Chwefror 2021 a 6 Mai 2022	0	0	0	0	0	15-20 CALI 135-140	0	2,000	15-20	500
Jennifer Simnett Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol rhwng 5 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022	0	0	0	0	0	45-50 CALI 150-155	300	0	45-50	0

	2023-2024					2022-2023				
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (hyd at y £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm tâl (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau eraill (hyd at y £100 agosaf)	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau trethadwy (hyd at y £100 agosaf)	Buddiannau pensiwn (i'r £'000 agosaf)	Cyfanswm tâl (bandiau o £5,000) £'000	Treuliau eraill (hyd at y £100 agosaf)
Miles Wallace <sup>4</sup> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Dros Dro rhwng 13 Rhagfyr 2021 a 30 Medi 2023	60-65 CALI 125-130	500	9,000	70-75	1,200	120-125	700	12,000	135-140	1,900
Geraldine Walters Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol hyd at 2 Rhagfyr 2022	0	0	0	0	0	115-120 CALI 165-170	400	9,000	125-130	2,100
Edward Welsh Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu	135-140 CALI 155-160	0	17,000	150-155	700	130-135 CALI 150-155	200	17,000	150-155	0
<b>Cyfansymiau</b>	<b>1,259</b>	<b>4,451</b>	<b>144,515</b>	<b>1,408</b>	<b>39,000</b>	<b>1,166</b>	<b>5,331</b>	<b>141,103</b>	<b>1,313</b>	<b>11,200</b>

- Mae Ruth Bailey a Lise-Anne Boissiere wedi rhannu swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol ers ymuno â'r NMC ar 7 Tachwedd 2022. Gweithiodd Ruth Bailey 0.6 CALI am y cyfnod cyfan. Bu Lise-Anne Boissiere yn gweithio 0.6 FTE tan fis Awst 2023 a 0.8 FTE o fis Medi 2023. Mae Lise-Anne Boissiere ar secondiad o'r Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau tan 6 Tachwedd 2025.
- Cyflogwyd Tom Scott fel Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol interim i gyflenwi yn ystod absenoldeb Emma Broadbent. Ar ôl dychwelyd, parhaodd Emma Broadbent fel Cyfarwyddwr Gweithredol heb bortffolio, gan oruchwylio rhaglen newid, tra parhaodd Tom Scott fel Cyfarwyddwr Gweithredol interim dros Reoleiddio Proffesiynol. Ymgwymerodd Emma Broadbent â rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol nes iddi adael y sefydliad. Yna penodwyd Jennifer Simnett yn Gyfarwyddwr Gweithredol Interim Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol tan fis Rhagfyr 2022.

- Mae Matthew McClelland yn aelod gohiriedig o'r cynllun buddion diffiniedig, a dangosir manylion gwerth ei fuddion pensiwn yn 2022-2023, gan gynnwys 50 y cant (£15,402) o daliad trosiannol y cytunwyd arno o £30,804 pan ddaw'r cynllun buddion diffiniedig i ben i groniadau yn y dyfodol, yn nhabl 2. Gwnaed y taliad trosiannol fel cyfraniad i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig a chytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth y gellid gwneud 50 y cant o'r taliad yn 2021-2022 a 50 y cant yn 2022-2023. Mae buddion pensiwn Matthew McClelland a ddangosir uchod yn cynrychioli cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.
- Penodwyd Miles Wallace yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Dros Dro o 13 Rhagfyr 2021 i gyflenwi dros gyfnod absenoldeb Edward Welsh oherwydd salwch. Dychwelodd Edward i'w waith ym mis Rhagfyr 2022 ar ôl dychwelyd yn raddol i'r gwaith. Dychwelodd Miles i'w swydd barhaol ym mis Hydref 2023.
- Lle mae bandiau cyflog yn uwch na'r hyn sy'n cyfateb i flwyddyn lawn, mae hyn oherwydd codiadau cyflog wedi'u hôl-ddyddio neu werthu diwrnodau gwyliau blynyddol.

- Mae cyfarwyddwyr presennol yn aelodau o'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig, ac eithrio Ruth Bailey, sydd wedi optio allan (mae'r cyfraniad pensiwn negyddol yn 2023-2024 yn cynrychioli ad-daliad o gyfraniadau 2022-2023 oherwydd optio allan); a Lise-Anne Boissiere, y mae ei phensiwn yn bensiwn gwasanaeth sifil buddion diffiniedig. Gwerth buddion pensiwn cyfarwyddwyr presennol, gan gynnwys rhai Lise-Anne Boissiere, yw cyfraniadau'r cyflogwr a wneir i'w cronfeydd pensiwn. Mae'r datgeliad ar gyfer Lise-Anne Boissiere yn wyriad oddi wrth Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM), sy'n galw am gynnwys buddion pensiwn cronedig. Cytunodd y Swyddog Cyfrifyddu i wyro oddi wrth y FReM ar sail nad oedd y wybodaeth ar gael ar y pryd. Mae cyfrifiad y ffigurau buddion pensiwn cronedig ar gyfer 2023-2024 yn amodol ar oedi eithriadol yn dilyn cymhwyso'r rhwymedi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus, sydd hefyd yn oedi'r NMC rhag cael y ffigurau ar gyfer 2022-2023 a gafodd eu hepgor o adroddiad y llynedd. Mae'r NMC yn bwriadu cydymffurfio â'r gofynion datgelu yn y dyfodol.
- Cyfansymiau'n amodol ar dalgrynnu.

<sup>2</sup> [www.gov.uk/government/collections/how-the-public-service-pension-remedy-affects-your-pension](http://www.gov.uk/government/collections/how-the-public-service-pension-remedy-affects-your-pension)

## Tâl y Weithrediaeth ar gyfer 2024–2025

Ystyriodd y Pwyllgor Tâl dêl y Weithrediaeth ar gyfer 2024–2025 ym mis Chwefror 2024. Llywiwyd ystyriaeth y Pwyllgor gan dystiolaeth feincnodi allanol a fforddiadwyedd cyffredinol. Gwnaeth y Pwyllgor y penderfyniadau a ganlyn:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor gynnydd o 1.5 y cant ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol, yn weithredol o 1 Ebrill 2024, a oedd yn gyson â'r cynnydd safonol yn nifer y cydweithwyr mewn rolau gradd 10 ac 11. Mae hyn yn is na'r cynnydd cyffredinol ar gyfer cyflogeion - rhwng 3.5 a 6.5 y cant yn dibynnu ar radd, gyda graddau is yn cael y cynnydd mwyaf - oherwydd na chafodd Cyfarwyddwyr Gweithredol gynnydd dilyniant.
- Derbyniodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gynnydd blynyddol is o 1.4 y cant i sicrhau bod eu cyflog ond yn parhau i fod £2,000 yn uwch na'r Cyfarwyddwr Gweithredol â'r cyflog uchaf ond un.
- Cytunodd y Pwyllgor i godiad ychwanegol ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol cyn i'r cynnydd blynyddol gael ei gymhwyso gan ei fod yn cael ei dalu ar bwynt isaf ei raddfa gyflog o gymharu â Chyfarwyddwyr Gweithredol eraill.

## Ymrwymadau oddi ar y gyflogres a phecynnau ymadael

Yn unol â gofynion Trysorlys EF, rhaid cyhoeddi gwybodaeth am ymrwymadau cyflog uchel a/neu swyddi uwch oddi ar y gyflogres ar ddiwedd y flwyddyn, a nifer a chost pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r un o'r Cyngor na'r Tîm Gweithredol wedi'u cyflogi oddi ar y gyflogres. Asesir yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres gan ddefnyddio statws cyflogaeth y Llywodraeth ar gyfer cyfrifiannell treth i nodi'r dull cywir o gyflogi.

**Tabl 3****Swyddi oddi ar y gyflogres**

**Swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2024, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n parhau am fwy na chwe mis**

<b>Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2024</b>	<b>3</b>
O'r rhain:	
Nifer sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	3
Nifer sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy ar adeg adrodd	0
Nifer sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	0
Nifer sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	0

**Ar gyfer pob swydd newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o ran hyd, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n parhau am fwy na chwe mis.**

Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o ran hyd, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	3
O'r rhain:	
Nifer a aseswyd eu bod o fewn IR35	0
Nifer yr aseswyd eu bod y tu allan i IR35	3
Nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar y gyflogres	0
Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	1
Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb	1

**Tabl 4**

**Pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)**

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer y gwyradau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost		Nifer yr ymadawiadau lle mae taliadau arbennig wedi'u gwneud	
	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023
Llai na £10,000	7	5	3	0	10	5	0	0
£10,001 - £25,000	0	2	3	2	3	4	2	1
£25,001 - £50,000	0	1	0	0	0	1	0	0
£50,001 - £100,000	1	1	0	0	1	1	0	0
£100,000 - £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Yn fwy na £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael</b>	<b>8</b>	<b>9</b>	<b>6</b>	<b>2</b>	<b>14</b>	<b>11</b>	<b>2</b>	<b>1</b>
<b>Cyfanswm y gost £</b>	<b>82,680</b>	<b>137,761</b>	<b>60,414</b>	<b>39,641</b>	<b>143,094</b>	<b>177,402</b>	<b>38,894</b>	<b>23,500</b>

Fel y nodir yn nhabl 4, gwnaed dau daliad arbennig i gydweithwyr a oedd yn gadael y sefydliad yn 2023-2024. Mae taliadau arbennig yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a delir i gyflogwyr ac eraill sydd uwchlaw'r gofynion statudol neu gontractiol arferol wrth adael cyflogaeth, p'un a ydynt yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n cyrraedd terfyniad contract y cytunwyd arno. Yn unol â threfniadau llywodraethu a gymeradwywyd gan y Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Pwyllgor Tâl (Pwyllgor Pobl a Diwylliant o 1 Ebrill 2024) sy'n gyfrifol am gymeradwyo taliadau o'r fath yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.

Cymeradwywyd y ddau daliad arbennig a wnaed yn 2023-2024 yn unol â'n polisi taliadau anghontractiol, ar y sail bod modd cyfiawnhau cymeradwyaeth yn yr amgylchiadau eithriadol a gyflwynwyd a bod modd ei hamddiffyn.

# Tâl ac asesiad perfformiad cyflogeion eraill

Mae gan bob cyflogai gyfnod prawf o chwe mis ar ddechrau cyflogaeth a chyfnod rhybudd o un i dri mis, yn dibynnu ar eu graddfa.

Adolygir tâl pob cyflogai yn flynyddol gan ystyried ystod o wybodaeth gan gynnwys trosiant cyflogeion, gweithgarwch recriwtio a thueddiadau cadw, data meincnodi a fforddiadwyedd cyffredinol. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd cyfradd safonol o bump y cant mewn cyflog ar gyfer yr holl gyflogeion cymwys o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Cymeradwyodd y Cyngor y buddsoddiad hwn gan fod tystiolaeth gan ymgynghorwyr meincnodi a gwobrwyo wedi cadarnhau bod ein hystodau cyflog wedi disgyn y tu ôl i sefydliadau cymharol.

Fel rhan o'r Cynllun Pobl a chyfanswm y prosiect gwobrwyo, fe wnaethom hefyd gynnal adolygiad o'n holl wobrau a gynigir mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr allanol annibynnol. Yn dilyn eu hargymhellion, fe wnaethom roi newidiadau ar waith o fis Ebrill 2023 i'n graddfeydd cyflog, gan gynnwys culhau'r ystodau a chyflwyno ystod datblygiad cyflog i gyflogeion allu symud drwyddi. Cyflawnir hyn drwy gyflwyno cynyddrannau cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae hyn yn sicrhau bod hyd yn oed pen isaf ein hystodau cyflog yn parhau'n gystadleuol i'r farchnad allanol, yn mynd i'r afael â phryderon cydweithwyr ynghylch dilyniant cyflog aneglur, ac yn lleihau unrhyw broblemau cyflog cyfartal posibl yn y dyfodol. Costiodd y gwaith hwn 2.3 y cant ychwanegol o'r gyllideb gyflog ac fe'i gweithredwyd ym mis Ebrill 2023.

Ebrill 2024 yw ail flwyddyn y strwythurau a'r polisi tâl newydd. Roedd y cynnydd yn y gyfradd safonol yn amrywio'n seiliedig ar ba radd cyflog, gyda graddau is yn derbyn cynnydd cyfradd safonol uwch o 2.5 y cant a chydweithwyr gradd uwch yn derbyn cynnydd cyfradd safonol o 1.5 y cant. Cost gyffredinol y cynnydd yn y gyfradd safonol fydd 2.2 y cant o'r gyllideb gyflog a bydd y cynnydd dilyniant yn gynnydd o 2.9 y cant yn y gyllideb gyflog sy'n golygu cyfanswm cynnydd yn y gyllideb o 5.1 y cant.

Yn 2023 fe wnaethom drosglwyddo i broses adolygu perfformiad a datblygiad newydd, gan symud i adolygiadau chwarterol a chylch sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Er mwyn gallu gwirio canlyniadau'n llawn a chysondeb cyn cysylltu arfarniadau â chanlyniadau cyflog, roedd 2023 yn flwyddyn bontio ac nid oedd y broses yn gysylltiedig â chyflogau ar gyfer 2023-2024. Ym mis Ionawr 2024 fe wnaethom symud i'n proses newydd ar gyfer arfarnu a phennu amcanion, a fydd bellach yn gysylltiedig â datblygiad cyflog o fis Ebrill 2025.

UNSAIN yw'r undeb llafur cydnabyddedig yr ydym yn ymgysylltu ag ef ar faterion y cytunwyd arnynt, gan gynnwys tâl, telerau ac amodau cyflogaeth a ffyrdd o weithio.

## Trefniadau pensiwn

Hyd at 30 Mehefin 2021, roedd gennym ddau gynllun pensiwn gweithredol: cynllun pensiwn buddion diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn mis Tachwedd 2013 yn gallu ymuno â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Caewyd y cynllun i gyflogeion a wnaeth ymuno â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013. Ar 23 Mawrth 2021, yn dilyn ymgynghoriad, cymeradwyodd y Cyngor gau'r cynllun buddion diffiniedig i gronni buddion yn y dyfodol o 1 Gorffennaf 2021. Cyflawnodd hyn yr amcanion o gysoni manteision i bob cydweithiwr, gan leihau amlygiad yr NMC i risg ariannol a galluogi costau i gael eu hailgyfeirio i wariant arall.

Mae ein cynllun pensiwn gweithredol presennol yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Gall cyflogeion ddewis cyfrannu at y cynllun hwn drwy aberthu cyflog.

Mae cyflogeion yn y cynllun yn cyfrannu o leiaf un y cant o'u cyflog, sy'n cael ei gyfateb gan yr NMC yn cyfrannu wyth y cant (2022-2023: wyth y cant). O 1 Ebrill 2021, parodd yr NMC gyfraniadau ychwanegol y cyflogeion hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 14 y cant. I dderbyn cyfraniad cyflogwr o 14 y cant, byddai angen i gyflogai gyfrannu o leiaf saith y cant. Rydym yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr i fyfyrion ar y ffordd orau o gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad a sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar ein cynllun pensiwn. Ar 31 Mawrth 2024, roedd 1,069 o gyflogeion (92.2 y cant) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig (31 Mawrth 2023: 1,022, 94.2 y cant). Mae'r gostyngiad yng nghanran y cyflogeion yn y cynllun pensiwn o leiaf yn rhannol oherwydd bod mwy o ddechreuwyd newydd yn dal i fod yn eu cyfnod optio allan ar 31 Mawrth 2024.

Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau a phensiynau yn nodiadau 9 a 19 i'r cyfrifon.

# Strwythur graddio a gwahaniaethau cyflog yr NMC

**Tabl 5**

Cyflogeion yn ôl gradd a rhywedd ar 31 Mawrth 2024

Lefel Tâl	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw
	Nifer y cydweithwyr		Fel canran o'r holl gydweithwyr		Fel canran o lefel tâl	
1-4	141	390	12.3%	34.0%	26.6%	73.4%
5-7	164	312	14.3%	27.2%	34.5%	65.5%
8-11	45	89	3.9%	7.8%	33.6%	66.4%
Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan gynnwys interim/dros dro	2	4	0.2%	0.3%	33.3%	66.7%
Prif Weithredwr a Chofrestrydd (CE a R)	0	1	0.0%	0.1%	0.0%	100.0%
<b>Cyfanswm y cyflogeion</b>	<b>352</b>	<b>796</b>	<b>30.7%</b>	<b>69.3%</b>	<b>30.7%</b>	<b>69.3%</b>



**Tabl 6**

**Cyflogeion yn ôl gradd ac ethnigrwydd ar 31 Mawrth 2024**

Lefel Tâl	Gwyn	Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	Heb ei ddatgelu neu well ganddynt beidio ag ateb	Gwyn	Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	Heb ei ddatgelu neu well ganddynt beidio ag ateb	Gwyn	Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	Heb ei ddatgelu neu well ganddynt beidio ag ateb
	Nifer y cydweithwyr			Fel canran o'r holl gydweithwyr			Fel canran o lefel tâl		
1-4	175	284	72	15.2%	24.7%	6.3%	33.0%	53.5%	13.6%
5-7	272	154	50	23.7%	13.4%	4.4%	57.1%	32.4%	10.5%
8-11	99	25	10	8.6%	2.2%	0.9%	73.9%	18.7%	7.4%
Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan gynnwys interim/dros dro	4	0	2	0.3%	0.0%	0.2%	66.7%	0.0%	33.3%
Prif Weithredwr a Chofrestrydd (CE a R)	1	0	0	0.1%	0.0%	0.0%	100.0%	0.0%	0.0%
<b>Cyfanswm y cyflogeion</b>	<b>551</b>	<b>463</b>	<b>134</b>	<b>48.0%</b>	<b>40.3%</b>	<b>11.7%</b>	<b>48.0%</b>	<b>40.3%</b>	<b>11.7%</b>

## Datgeliadau cyflog teg (yn amodol ar archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)

Mae'r tâl yn y cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar gyflog blynyddol, cyfwerth ag amser llawn yr holl staff (heb gynnwys staff contractwyr ac asiantaethau) ar y dyddiad adrodd. Nid yw'n cynnwys gwyliau blynyddol â thâl, cyfraniadau pensiwn cyflogwr, treuliau trehadwy na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Y cyflogai parhaol sy'n cael y tâl uchaf yn yr NMC ar 31 Mawrth 2024 yw'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, Andrea Sutcliffe, ac rydym wedi defnyddio ei chyflog fel cymharydd wrth gyfrifo'r gwahaniaeth i daliadau chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf cyflogeion yr NMC.

- Y cyflog uchaf yn 2023-2024 (Andrea Sutcliffe: £185,120). Wrth gymryd cyflogeion yr endid yn ei gyfarwydd (ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf), roedd y newid mewn cyflog cyfartalog o 2023-2024 i 2022-2023 yn gynydd o 5.17 y cant oherwydd y cynnydd mewn cyflog ar gyfer yr holl gyflogeion cymwys - fel rhan o'r Adolygiad cyflog Ebrill 2023, lle'r oedd y cynnydd cyfartalog yn 4.3 y cant - a'r galw cynyddol mewn cyflogau gan ymgeiswyr allanol oherwydd y farchnad recriwtio fwy cystadleuol. Ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion dâl perfformiad na bonysau yn y flwyddyn ariannol gyfredol na'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ar 31 Mawrth 2024 ystod y tâl yn yr NMC oedd £21,564 i £185,120 (ar 31 Mawrth 2023: £20,395 -£176,000).

- Yn 2023-2024, roedd y tâl uchaf 4.41 gwaith yn fwy na chydabyddiaeth ganolrifol cyflogeion yr NMC, sef £41,942. Yn 2022-2023, roedd y tâl uchaf 4.37 gwaith yn fwy na thâl canolrifol cyflogeion yr NMC, sef £40,237. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.04 yn y bwlch cyflog canolrifol, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r cyflog tâl canolrifol wedi cynyddu ers 2022-2023 - o ganlyniad i'r adolygiad cyflog blynyddol a chynnydd dilyniant y cytunwyd arno ym mis Ebrill 2023 - fodd bynnag cynyddodd y bwlch cyflog oherwydd i Andrea Sutcliffe dderbyn ei chynnydd cyflog cyntaf ym mis Ebrill 2023 ers ymuno â'r NMC ym mis Ionawr 2019.
- Yn 2023-2024, roedd y tâl uchaf 5.61 gwaith yn fwy na thâl chwartel isaf cyflogeion yr NMC, sef £33,004. Yn 2022-2023, roedd y tâl uchaf 5.68 gwaith yn fwy na thâl chwartel isaf cyflogeion yr NMC, sef £31,000. Mae hyn yn ostyngiad o 0.07 yn y bwlch tâl chwartel isaf flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd hyn oherwydd y ffocws ar ein cyflogeion ar y cyflogau isaf yn cael y cynnydd mwyaf yn adolygiad cyflog blynyddol Ebrill 2023.
- Yn 2023-2024, roedd y tâl uchaf 3.11 gwaith yn fwy na thâl chwartel uchaf cyflogeion yr NMC, sef £59,531. Yn 2022-2023, roedd y tâl uchaf 3.07 gwaith yn fwy na thâl chwartel uchaf cyflogeion yr NMC, sef £57,418. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yn y bwlch tâl chwartel uchaf o 0.04 flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cynyddodd cyflog tâl y chwartel uchaf ers 2023-2024 oherwydd y gostyngiad yn lled ein hystodau cyflog a chyflwyniad datblygiad cyflog.

# Adrodd ar y bwlch cyflog

Ers 2017, mae deddfwriaeth wedi ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi ein data bwlch cyflog rhwng y rhywiau; yn ogystal, ers 2020 rydym hefyd wedi cyhoeddi ein data bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd yn wirfoddol. Mae'r data hyn yn rhoi mewnwelediad i ble mae angen i ni wella er mwyn cynnig cyfleoedd cyflogaeth cynhwysol waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.

Rydym wedi defnyddio'r un fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifiadau cyflog rhwng y rhywiau i gyfrifo ein bylchau cyflog ethnigrwydd ac anabledd.

Dangosir ein data bwlch cyflog ar gyfer 2024 yn y tabl isod gyda data 2023 i'w gymharu. Mae ein canlyniadau 2023 hefyd i'w gweld yn ein hadroddiadau [Adroddiadau Bwlch Cyflog](#).

Bwlch cyflog	Ar 5 Ebrill 2024	Ar 5 Ebrill 2023	Cyfartaledd y DU ar gyfer 2023 <sup>3</sup>
Rhywedd - Cymedr	6.5%	8.1%	13.1%
Rhywedd - Canolrif	9.6%	14.6%	12.1%
Ethnigrwydd - Cymedr	21.6%	21.6%	Dim digon o ddatganiadau i gyfrifo ffigurau cywir.
Ethnigrwydd - Canolrif	30.9%	28.8%	
Anabledd - Cymedr	-9.4%	-6.1%	
Anabledd - Canolrif	-10.6%	-7.8%	

Sylwer: Nid yw data ethnigrwydd ar gyfer Ebrill 2023 yn cyfateb i'r hyn a adroddwyd yn adroddiad y llynedd gan fod y CIPD (Sefydliad Siartredig Datblygiad Personél) wedi diweddaru ei fethodoleg ar gyfer cyfrifo bylchau cyflog ethnigrwydd.

Bydd naratif manylach o'r newidiadau hyn yn cael ei gyhoeddi yn ein hadroddiadau ar fylchau cyflog.

<sup>3</sup> Adrodd ar dâl ethnigrwydd: canllawiau i gyflogwyr - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

# Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ein bwlch tâl cymedrig rhwng y rhywiau ar 5 Ebrill 2023 oedd 8.1 y cant. Ar 5 Ebrill 2024 gostyngodd hyn i 6.5 y cant. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu cynnydd mewn cydweithwyr benywaidd yn ein chwarterel uchaf (21 yn fwy o fenywod o gymharu ag Ebrill 2023) a chynnydd mewn cydweithwyr gwrywaidd sy'n gweithio yn ein chwarterel isaf (17 yn fwy o wrywod yn ein chwarterel isaf o gymharu ag Ebrill 2023).

# Bwlch cyflog ethnigrwydd

Ein bwlch tâl ethnigrwydd cymedrig ar 5 Ebrill 2023 oedd 21.6 y cant. Mae ein ffigurau ar gyfer 2024 yn dangos bod hyn wedi aros yr un fath ar 21.6 y cant. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod cyflog cyfartalog cydweithwyr gwyn a Du a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cynyddu 4.7 y cant dros y cyfnod hwn.

Ein bwlch tâl ethnigrwydd canolrifol ar 5 Ebrill 2023 oedd 28.8 y cant. Mae ein ffigurau ar gyfer 2024 yn dangos bod hyn wedi cynyddu i 30.9 y cant, cynnydd o 2.1 pwynt canran. Dengys ein dadansoddiad, dros y cyfnod hwn, fod cyflog canolrifol cydweithiwr gwyn wedi cynyddu 6.2 y cant o gymharu â chynnydd o 3.1 y cant ar gyfer cydweithiwr Du a Lleiafrifoedd ethnig. Achoswyd hyn yn bennaf gan ddau ffactor, a'r ffactor cyntaf oedd gostyngiad o 0.8 pwynt canran o gydweithwyr gwyn yn ein rolau chwarterel isaf. Yr ail ffactor oedd er bod nifer y cydweithwyr Du a Lleiafrifoedd ethnig yn gweithio yn yr NMC wedi cynyddu 32 o gydweithwyr gyda thwf

ym mhob chwarterel, roedd y twf mwyaf yn ein chwarterel isaf. Cynyddodd nifer y cydweithwyr Du a Lleiafrifoedd ethnig a oedd yn gweithio yn ein chwarterel uchaf a'n chwarterel canol uwch 13, a chynyddodd nifer y cydweithwyr Du a Lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yn ein chwarterel canol isaf ac isaf 19, gan ostwng safle ein cyflog canolrifol.

Rydym wedi ymrwymo i gymryd camau ystyrlon ac eisoes wedi cymryd rhai camau pwysig yn seiliedig ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu. Un cam gweithredu o'r fath yw drwy ein rhaglen fentora Codi Gyda'n Gilydd. Mae Codi Gyda'n Gilydd wedi'i gynllunio i adeiladu diwylliant sy'n annog cydweithio, tegwch a chynwysoldeb er mwyn galluogi pob cydweithiwr i wireddu ei botensial. Mae'n creu cyfle i gydweithwyr dderbyn cymorth mentora, gan eu galluogi i symud ymlaen yn eu gyrfaeod a chyflawni twf proffesiynol. Nod y rhaglen yw arfogi ein harweinwyr a rheolwyr i arwain trwy lens gynhwysol, cael sgysiaid pwysig ac i bob cydweithiwr gymryd perchnogaeth o hunanddatblygiad. Mae'r rhaglen bellach yn ei phedwaredd flwyddyn ac mae nifer y cyfranogwyr wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ystod 2023-2024, er mwyn cryfhau'r ymagwedd hon, fe wnaethom ddatblygu'r rhaglen Codi'n Uwch i ddarparu cymorth, gweithdai a hyfforddiant ychwanegol i gydweithwyr sydd wedi cwblhau Codi Gyda'n Gilydd. Lanswyd hwn ym mis Mai 2024.

draws yr NMC a lleol gan gynnwys creu targedau. Mae'r targedau hyn yn cynnwys cynyddu'r gyfradd llogi ar gyfer ymgeiswyr Du a Lleiafrifoedd ethnig ar Radd 6 ac uwch a chynyddu cynrychiolaeth cydweithwyr Du a Lleiafrifoedd ethnig ar y cam ar y rhestr fer mewn rolau gradd 8 ac uwch.

Mae hyn wedi'i gefnogi gan ddatblygu hyfforddiant recriwtio cynhwysol a hyfforddiant wedi'i dargedu sydd ar ddod a chymorth i gydweithwyr ar adeiladu eu gyrfa a chwblhau ceisiadau am swyddi.

## Bwlch cyflog anabledd

Ein bwlch cyflog anabledd cymedrig ar 5 Ebrill 2023 oedd -6.1 y cant, ac ar 5 Ebrill 2024, roedd yn -9.4 y cant. Mae hyn yn golygu bod cydweithwyr sydd wedi dweud wrthym eu bod yn anabl ar gyfartaledd yn cael mwy o dâl na phobl nad ydynt wedi gwneud hynny. Mae hyn yn gynydd o 3.3 pwynt canran o blaid cydweithwyr anabl o'i gymharu ag Ebrill 2023. Y prif reswm am hyn yw bod cynnydd wedi bod yn nifer y cydweithwyr sy'n datgan anabledd yn ein chwarter uchaf a'n chwarter canol uwch, gyda chwe chydweithiwr arall yn datgan anabledd o gymharu yn ein chwarter canol isaf ac isaf lle bu cynnydd o un yn nifer y cydweithwyr a ddatganodd anabledd.

Rydym yn cydnabod y gall tangofnodi anabledd yn y gweithlu fod yn achos y bwlch cyflog gwrthdro anabledd yma, gan fod ein data'n dangos bod pobl yn ein chwarter cyflog uchaf yn fwy tebygol o ddweud wrthym eu bod yn anabl na chydweithwyr yn ein chwarter cyflog isaf.

Nid yw 21.0 y cant o'n cydweithwyr ar y cyflogau isaf wedi rhannu unrhyw ddata monitro ynghylch a ydynt yn anabl ai peidio, o gymharu â 10 y cant o'n cydweithwyr ar y cyflogau uchaf. Yn gyffredinol, mae diffyg datgan wedi gostwng 0.9 pwynt canran o gymharu ag Ebrill 2023. Rydym yn falch bod diffyg datgan wedi lleihau a byddwn ni'n parhau i gymryd camau i'w leihau ymhellach yn 2024-2025.

Rydym wedi cymryd camau, gyda chymorth ein rhwydwaith Workaround, i gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n rhannu data monitro amrywiaeth gan ganolbwyntio'n benodol ar anabledd.

**Syr David Warren**  
**Cadeirydd**  
**3 Gorffennaf**  
**2024**

**Andrea Sutcliffe**  
**Prif Weithredwr a**  
**Chofrestrydd**  
**3 Gorffennaf**  
**2024**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

---

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon blynyddol gael eu paratoi a'u harchwilio. Y Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) sy'n gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn dilyn penderfyniad a dderbyniwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau (SORP) diwygiedig 2019 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd (Atodiad 1).

O dan y gofynion hyn, a'r gofynion cyfreithiol ar wahân sy'n gymwys i elusennau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr, ac i'r rheini sydd wedi'u cofrestru yn yr Alban, mae'n rhaid i'r NMC baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion yr NMC ac o'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt:

- cadw at y penderfyniad cyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr NMC yn parhau i weithredu
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr NMC ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r NMC ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor o dan adran 52 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (fel y'i diwygiwyd). Wrth wneud hynny, gofynnir iddi ystyried yr egwyddorion a nodir ym Mhennod 3 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu a'r canllawiau ehangach a geir yn Rheoli Arian Cyhoeddus (Trysorlys EF, 2013, ag atodiadau wedi'u diwygio ym mis Mawrth 2018).

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd i wneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Prif leoliad busnes

Mae'r NMC yn gweithio ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Ei phrif leoliad busnes yw:

23 Portland Place,  
Llundain W1B 1PZ

## Cynghorwyr

### Archwilydd allanol annibynnol

HW Fisher LLP, Acre House,  
11-15 William Road, Llundain NW1 3ER

### Bancwyr

HSBC Bank Plc Space One, Floor 2  
1 Beadon Road, Llundain W6 0EA

### Archwilydd Statudol

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol,  
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol,  
157-197 Buckingham Palace Road,  
Victoria, Llundain SW1W 9SP

### Rheolwyr buddsoddi

Sarasin & Partners LLP,  
Juxon House, 100 St Paul's Churchyard,  
Llundain EC4M 8BU

### Archwilydd mewnol

RSM Risk Assurance Services LLP,  
25 Farringdon Street,  
Llundain EC4A 4AB

### Cyfreithwyr

Capsticks Solicitors LLP,  
1 St Georges Road,  
Llundain SW19 4DR

Mills & Reeve LLP,  
24 King William Street,  
Llundain EC4R 9AT

Addleshaw Goddard LLP,  
60 Chiswell Street,  
Llundain EC1Y 4AG

Trowers & Hamblins LLP,  
3 Bunhill Row, Llundain EC1Y 8YZ

# Datganiad llywodraethu blynyddol

## **Rydym yn gorff statudol annibynnol.**

Mae ein hamcanion a'n cyfrifoldebau statudol wedi'u nodi yn Gorchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd (OS 2002/253), (y Gorchymyn).




Rydym hefyd yn elusen gofrestredig; cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362). Mae ein hamcan elusennol yn adlewyrchu ein hamcan statudol trosfwaol: diogelu a gwarchod iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau (CC) a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) wrth wneud penderfyniadau; trwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn esbonio sut mae ein gwaith yn arddangos budd cyhoeddus.

Fel rheoleiddiwr, rydym yn disgwyl i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr gynnal y safonau a'r gwerthoedd proffesiynol uchaf. Nid yw ond yn iawn ac yn briodol ein bod yn dal ein hunain yr un mor atebol a chynnal y safonau llywodraethu uchaf a chynnal ein gwerthoedd. Rydym yn ymdrechu i fodloni'r egwyddorion a'r arferion a argymhellir yn y Cod Llywodraethu Elusennau ac Egwyddorion Moesegol Elusennol Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol, ac mae ein harfer yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau y mae'n berthnasol.

Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus - anhunanoldeb, cywirdeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth (Egwyddorion Nolan) - ac mae'n holl waith yn cael ei lywio gan ein gwerthoedd sefydliadol - teg, caredig, uchelgeisiol a chydweithredol. Rydym wedi ymrwmo i greu diwylliant man gwaith sy'n ymgorffori'r gwerthoedd hyn a'n safonau. Rydym yn meithrin diwylliant dysgu: lle syrthiwn yn brin, rydym wedi ymrwmo i ymateb yn agored ac yn dryloyw, gan adnabod dysgu a gwneud gwelliannau er mwyn i ni allu gwireddu ein gweledigaeth: ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb.

# Strwythur llywodraethu



Y **Cyngor** yw ein corff llywodraethu ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor ar y cyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr NMC yn cael ei redeg yn dda, yn ddiddyled ac yn darparu budd cyhoeddus.

Mae **pwyllgorau'n** cefnogi'r Cyngor drwy gyflawni swyddogaethau penodol a ddirprwyir gan y Cyngor ac a nodir yn eu cylch gorchwyl. Mae'r rhain yn cynnwys darparu craffu ychwanegol, cynghori ar ddatblygu strategol a goruchwyllo gweithredu strategaethau.

Rôl y **Prif Weithredwr a Chofrestrydd** yw arwain a rheoli materion rheoleiddio, proffesiynol, busnes ac ariannol yr NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gyfrifoldeb personol dros faterion yn ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnydd effeithiol o adnoddau.

Y **Bwrdd Gweithredol** yw'r corff rheoli allweddol sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisiau, cynlluniau busnes a chyllidebau; sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, cyllid a phobl; a nodi a rheoli risg.

# Y Cyngor

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu. Ei gylch gwaith yw (a) gosod ein cyfeiriad strategol a'n hamcanion corfforaethol, yn unol â'n pwrpas craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; a (c) cynnal uniondeb wrth, ac atebolrwydd cyhoeddus am arfer ein swyddogaethau a'r defnydd o arian. Mae ein Cynllun Dirprwyo'n nodi pa faterion y gall y Cyngor yn unig benderfynu arnynt.

Yn unol â llywodraethu da, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'i effeithiolrwydd ei hun, gan gynnwys adolygiadau a hwylusir yn allanol. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn 2023-2024 ac fe'i cynhaliwyd gan Campbell Tickell. Yn ogystal â myfyrio ar yr arfer presennol, fe fu'r adolygiad hefyd yn myfyrio ar yr effaith y bydd diwygio rheoleiddio'n ei chael ar drefniadau llywodraethu, gan gynnwys y symudiad tebygol i fwrdd unedol.

Yn gyffredinol, canfu'r adolygiad fod fframwaith da ar y cyfan ar gyfer llywodraethu'r NMC, gydag ymrwymiad cryf i fodelu gwerthoedd y sefydliad a chyflawni ei ddiben. Argymhellodd yr adolygiad rai newidiadau i ddatblygu dull mwy strategol a sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i amser. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, gan ymestyn cwrpas y Pwyllgor Tâl yn ffurfiol i adlewyrchu ei ffocws ehangach ar bobl, adolygu strwythur ac amserlen cyfarfodydd y Cyngor i sicrhau ei fod yn cefnogi ei rôl strategol orau, a pharhau i esblygu ymagwedd yr NMC at risg. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn 2024-2025 ac yn cael sylw manwl yn natganiad llywodraethu blynyddol y flwyddyn nesaf.

I gefnogi'r symudiad tebygol i fwrdd unedol, gwnaeth yr adolygiad rai argymhellion hefyd i ddatblygu'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Weithrediaeth. Ymgorfforwyd y rhain yn y gwaith paratoi sydd eisoes ar y gweill ar gyfer diwygio rheoleiddiol.

## Aelodaeth

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod a rhaid i hanner ohonynt fod yn weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a rhaid i hanner fod yn aelodau lleig, fel y nodir yng [Ngorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth \(Cyfansoddiad\) \(Diwygio\) 2008 \(OS 2008/2553\)](#). Mae aelodau lleig yn bobl nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs, bydwaig neu gydymaith nyrsio cofrestredig. Fel rheoleiddiwr DU gyfan, rhaid i aelodaeth y Cyngor gynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Penodir Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor, yn dilyn prosesau dethol agored a chystadleuol. Mae'r Cyfrin Gyngor yn cael sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid ein prosesau penodi neu ailbenodi.

Mae aelodau'r Cyngor yn cael cyfnod cynefino llawn pan gânt eu penodi ac yn cynnal arfarniadau unigol bob blwyddyn. Mae'r rhain yn llywio datblygiad unigol a chyfunol yn y dyfodol, yn ogystal ag ystyried ailbenodiadau.

## Cynllun Cyswllt y Cyngor

Sefydlodd y Cyngor gynllun Cyswllt yng Ngorffennaf 2020 (Rheolau Sefydlog, paragraff 3.7) i ddarparu cyfleoedd i unigolion â'r potensial i ddatblygu'r sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen i fod yn Gyfarwyddwyr Anweithredol, yn debyg i brentisiaeth Cyfarwddwr Anweithredol. Mae Swyddogion Cyswllt yn ymwneud â phob agwedd ar waith y Cyngor mewn ffordd debyg i aelodau penodedig y Cyngor ond nid ydynt yn ymddiriedolwyr. Gwneir y mwyafrif o benderfyniadau'r Cyngor drwy gonsensws ond ar yr achlysur prin y gwneir penderfyniad drwy bleidlais ffurfiol, nid yw Swyddogion Cyswllt yn cymryd rhan. Mae swyddogion cyswllt yn cael cyfnod cynefino llawn ar adeg eu penodi ac yn cynnal gwerthusiadau unigol yn flynyddol.

## Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw ac mae'n ceisio cynnal cymaint o fusnes â phosibl mewn cyfarfodydd Agored y gall aelodau'r cyhoedd eu mynychu. Dim ond os ydynt yn dod o fewn yr eithriad a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor (paragraff 5.2.5) y gellir ystyried materion mewn cyfarfodydd Cyfrinachol. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt yn mynychu seminarau misol, yn cynnal cynadleddau fideo ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau eraill. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i sicrhau bod gan aelodau'r Cyngor y mewnwelediad sydd ei angen arnynt i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif a gwneud penderfyniad gwybodus.

## Presenoldeb aelodau a Swyddogion Cyswllt y Cyngor 2023-2024

Aelod	Presenoldeb y Cyngor	
	Nifer y sesiynau sy'n gymwys i'w mynychu*	% y sesiynau a fynychwyd
Syr David Warren (Cadeirydd)	14/14	100
Syr Hugh Bayley (tan 30 Ebrill 2023)	0	Amh
Yr Athro Professor Karen Cox (tan 30 Ebrill 2023)	0	Amh
Lindsay Foyster	14/14	100
Claire Johnston	14/14	100
Dr Margaret McGuire OBE	12/14	86
Eileen McEaney MBE	9/14	64
Flo Panel-Coates (o1 Tachwedd 2023)	4/6	67
Nadine Pemberton Jn Baptiste (o 1 Mai 2023)	10/14	71
Marta Phillips OBE (tan 30 Ebrill 2023)	0	Amh
Derek Pretty	14/14	100
Anna Walker CB	11/14	79
Ruth Walker MBE	12/12	100
Sue Whelan Tracy	13/14	93
Dr Lynne Wiggins OBE	13/14	93
Swyddog Cyswllt		
Jabulani Chikore	7/7	100
Navjot Kaur Virk	10/14	71

\*Yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus a chyfrinachol yr oedd aelodau/Swyddogion Cyswllt yn gymwys i'w mynychu.

# Pwyllgorau'r Cyngor

O dan Erthygl 3(12) o'r Gorchymyn, gall y Cyngor sefydlu pwyllgorau dewisol mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau a dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt, ac eithrio'r pŵer i wneud rheolau. Mae cylch gwaith, aelodaeth a chofnod presenoldeb pob Pwyllgor wedi'u nodi isod. Fe wnaeth y pwyllgorau hefyd nifer o benderfyniadau drwy ohebiaeth y tu allan i'r cyfarfodydd a nodir isod, lle bo angen ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Mae penodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio, Tâl, Buddsoddi a Llety yn cael ei lywodraethu gan Reolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, ynghyd â set o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Caiff aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Cadeirydd yn aelod ex-officio o holl bwyllgorau'r Cyngor, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Penodiadau. Ar 11 Ebrill 2023, penodwyd y Cadeirydd yn aelod llawn o'r Pwyllgor Tâl i adlewyrchu ei bresenoldeb rheolaidd.

## Pwyllgor Archwilio

### Cylch gorchwyl

Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw cefnogi'r Cyngor a'r rheolwyr drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli a chywirdeb y cyfrifon a'r adroddiad blynyddol.

### Gweithgareddau allweddol

Darparu sicrwydd rheolaidd i'r Cyngor ynghylch effeithiolrwydd y systemau a rheolaethau gan:

Adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol ac argymell cymeradwyo'r adroddiadau hynny i'r Cyngor. Hefyd fe wnaeth y Pwyllgor adolygu adroddiadau'r Archwilydd Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac ymatebion y Weithrediaeth i argymhellion a wneir gan yr archwilwyr.

Adolygu'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Adolygu trefniadau rheoli risg a sicrwydd, gan gynnwys cynnal adolygiadau cynhwysfawr o risgiau, mesurau lliniaru a ffynonellau sicrwydd ynghylch gwaith craidd.

Cymeradwyo'r cynllun gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2023-2024, adolygu canlyniadau adroddiadau archwilio mewnol a goruchwyllo'r camau gweithredu i fwrw ymlaen â chau argymhellion archwilio mewnol sydd heb eu cyflawni.

Adolygu digwyddiadau difrifol a thoriadau data, er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n rhannu ac yn rhoi'r dysgu ar waith er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

<b>Gweithgareddau allweddol (Parhad)</b>	<p>Adolygu gweithredoedd tendro sengl a cheisio sicrwydd bod y Pwyllgor Gwaith yn glynu at brosesau caffael priodol a bod modd cyfiawnhau unrhyw gamau tendro unigol.</p> <p>Monitro gweithredu a defnyddio polisïau mewnol Chwythu'r Chwiban a Gwrth-dwyll, Caethwasiaeth Fodern, Llwgrwobrwyo, a Llygredd i fod yn sicr bod unrhyw faterion a godir yn cael eu hymchwilio'n gynhwysfawr a bod unrhyw gamau gweithredu a dysgu yn cael eu datblygu. Fel rhan o'r gwaith hwn, maent hefyd yn adolygu'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern.</p>	
<b>Aelodaeth</b>	<b>Aelod</b>	<b>Presenoldeb</b>
	Marta Phillips (Cadeirydd tan 30 Ebrill 2023)	1 o 1
	Derek Pretty (Cadeirydd o 1 Mai 2023)	5 o 5
	Eileen McEaney	5 o 5
Sue Whelan Tracy	4 o 5	

## Pwyllgor Tâl

<b>Cylch Gwaith</b>	<p>Sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer tâl a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gan gynnwys ystyried adolygiad cyflog blynyddol ar gyfer yr holl gyflogeion, yn ogystal â chynnydd yn ôl y Cynllun Pobl, unrhyw newidiadau sylweddol i strwythur tâl a graddio cyflogeion neu gynlluniau pensiwn.</p>	
<b>Gweithgareddau allweddol</b>	<p>Cymeradwyo prosesau dethol ar gyfer dau aelod newydd o'r Cyngor a'r Cadeirydd a dau aelod newydd o'r Bwrdd Penodiadau</p> <p>Cytuno i argymhell y dyfarniad cyflog blynyddol ar gyfer 2024-2025 i'r Cyngor ac adolygu'r cynnig cyfanswm gwobrwyo.</p> <p>Adolygu gwobrwyo'r Weithrediaeth ac adolygu cynnydd ar y Cynllun Pobl ac agweddau mewnol y Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.</p>	
<b>Aelodaeth</b>	<b>Aelod</b>	<b>Presenoldeb</b>
	Ruth Walker (Cadeirydd)	3 o 5
	Syr Hugh Bayley (i 30 Ebrill 2023)	0 o 1
	Dr Lynne Wiggins	5 o 5
	Anna Walker	5 o 5
Syr David Warren (o 11 Ebrill 2023)	5 o 5	

## Pwyllgor Buddsoddi

<b>Cylch Gwaith</b>	Cylch gorchwyl y Pwyllgor Buddsoddi yw goruchwyllo gweithredu strategaeth fuddsoddi'r Cyngor; pennu dyrannu a symud arian yn unol â'r strategaeth fuddsoddi; a monitro portffolio buddsoddi'r NMC. Mae gwneud penderfyniadau a gweithredu'r strategaeth fuddsoddi'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Buddsoddi.	
<b>Gweithgareddau allweddol</b>	Adolygu'r polisi buddsoddi a chraffu ar ymateb y rheolwyr buddsoddi i anwadalrwydd economaidd byd-eang.  Gweithio gyda'n rheolwyr buddsoddi i sicrhau bod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn cael eu hystyried yn briodol wrth reoli'r portffolio.	
<b>Aelodaeth</b>	<b>Aelod</b>	<b>Presenoldeb</b>
Mae'r aelodaeth yn cynnwys dau aelod nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor (Partner) sy'n darparu arbenigedd ychwanegol ac a benodwyd yn dilyn prosesau recriwtio agored, cystadleuol.	Derek Pretty (Cadeirydd)	3 o 3
	Thomasina Findlay (Aelod partner)	2 o 3
	Sue Whelan Tracy	3 o 3
	Nick McLeod-Clarke (Aelod partner)	3 o 3
	Claire Johnston	2 o 3

## Pwyllgor Llety

<b>Cylch Gwaith</b>	Goruchwyllo gweithredu Cynllun Llety'r Cyngor o fewn y paramedrau ariannol ac eraill a osodir gan y Cyngor.	
<b>Gweithgareddau allweddol</b>	Ystyried sut i symud ymlaen â chynlluniau i adnewyddu 23 Portland Place, yn arbennig yng ngoleuni penderfyniad y Cyngor i oedi'r gwaith adnewyddu i gefnogi'r NMC i leihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn ddiogel ac yn gyflym.	
<b>Aelodaeth</b>	<b>Aelod</b>	<b>Presenoldeb</b>
	Derek Pretty (Cadeirydd)	2 o 2
	Anna Walker	2 o 2
	Dr Lynne Wiggins	2 o 2



## Bwrdd Penodiadau

<b>Cylch Gwaith</b>	Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw cynorthwyo'r Cyngor mewn cysylltiad ag arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Cadeiryddion ac aelodau paneli Addasrwydd i Ymarfer ac Aseswyr Cyfreithiol i'r Pwyllgorau Ymarfer (y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer) a phenodi aelodau panel Addasrwydd i Ymarfer i'r panel Apeliadau Cofrestru.	
<b>Gweithgareddau allweddol</b>	<p>Wedi argymhell penodi Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol newydd i'r Cyngor.</p> <p>Cymeradwyo cynllun tair blynedd newydd ar gyfer darparu paneli o ansawdd uchel.</p> <p>Cymeradwyo rhaglen hyfforddi Aelodau'r Panel ar gyfer 2024.</p> <p>Paratoi ar gyfer proses ddethol ar gyfer Aelodau Panel newydd a agorodd ym mis Mehefin 2024.</p>	
<b>Aelodaeth</b>	<b>Aelod</b>	<b>Presenoldeb</b>
Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor (Partner), a benodir yn dilyn prosesau recriwtio agored a chystadleuol.	Jane Slatter (Cadeirydd)	7 o 7
	Robert Allan	6 o 7
	Surinder Birdi (o 1 Gorffennaf 2023)	5 o 6
	Angie Loveless (tan 29 Chwefror 2024)	6 o 6
	Clare Salters (tan 29 Chwefror 2024)	6 o 6
	Yasmin Ullah (o 1 Mawrth 2024)	1 o 1

## Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Rôl y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain a rheoli materion rheoleiddio, proffesiynol, busnes ac ariannol yr NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gyfrifoldeb personol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleiddio ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnydd effeithiol o adnoddau.

# Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw'r corff rheoli allweddol sy'n gwneud penderfyniadau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol (sy'n Personél Rheoli Allweddol fel y'i diffinnir gan FRS 102). Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn bresennol yn rheolaidd ac o 11 Rhagfyr 2023 fe'i gwnaed yn aelod o'r Bwrdd (nid Personél Rheoli Allweddol yw'r Cwnsler Cyffredinol). Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisiau, cynlluniau busnes a chyllidebau; sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, cyllid a phobl; a nodi a rheoli risg. Mae'r Bwrdd yn cynghori neu'n gwneud argymhellion i'r Cyngor ar y materion hynny y bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt yn y pen draw. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd a'r Cyngor yn cydweithio mewn ysbryd o gydweithio, gonestrwydd a didwylledd.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn myfyrio'n rheolaidd ar ei weithrediad ei hun a sut y cynhelir busnes. Ym mis Rhagfyr 2023, er mwyn cefnogi'r Bwrdd i gael gwelededd a chanolbwyntio ar y risgiau a'r materion allweddol sy'n wynebu'r sefydliad, cytunodd y Bwrdd ar ymagwedd newydd at gynnal ei gyfarfodydd.

Yn hytrach na chyfarfod ddwywaith y mis, o fis Ionawr 2024, mae'r Bwrdd yn cyfarfod deirgwaith y mis mewn gwahanol foddau.

- **Craidd:** Mae'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar strategaeth, perfformiad, risg a sganio'r gorwel.
- **Addasrwydd i Ymarfer:** Ffocws y cyfarfod hwn yw sicrhau ymagwedd ar draws y sefydliad at ein prif flaenoriaeth gorfforaethol: diogelu'r cyhoedd trwy wneud y penderfyniadau cywir o ran addasrwydd i ymarfer mor gyflym a diogel â phosibl a chyflawni llwyth achosion cynaliadwy.
- **Dysgu:** Ffocws y cyfarfod hwn yw'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o faterion byw (megis yr ymchwiliadau chwythu'r chwiban) yn ogystal ag adborth a gwybodaeth trwy ein ffynonellau dysgu corfforaethol ehangach, cytuno ar gamau gweithredu sy'n codi a monitro gweithrediad a chynnydd.

Ar gyfer ei gyfarfodydd Addasrwydd i Ymarfer a Dysgu, mae dau neu dri aelod o'r Cyngor sy'n gweithredu fel cyfeillion beirniadol yn ymuno â'r Bwrdd; gan fynychu'r cyfarfodydd fel cyfranogwr gweithredol ond nid fel aelod (gan adlewyrchu mai cyfarfodydd y weithriaeth, gweithredol yw'r rhain). Mae aelodau'r Cyngor yn rhannu eu barn ar gynnydd y ffrydiau gwaith allweddol hyn gyda'r Cyngor, yn anffurfiol rhwng cyfarfodydd ac yn ffurfiol ar adegau priodol yng nghyfarfodydd y Cyngor.

# Monitro perfformiad ac ansawdd data

Mae'r Cyngor yn monitro ein cynnydd yn ôl ein strategaeth, cynllun corfforaethol a chyllideb drwy adroddiadau perfformiad chwarterol a gyflwynir mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r rhain yn darparu diweddariadau yn ôl ein hymrwymadau corfforaethol, dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), ein cyllideb a buddsoddiadau ac amlygiad risg corfforaethol. Mewn cydweithrediad â'r tîm Gweithredol, mae'r Cyngor yn penderfynu pa

wybodaeth a data perfformiad y mae am eu hadolygu fel y gall wneud penderfyniadau effeithiol am ein perfformiad a'n hamlygiad i risg. Mae'r Cyngor yn ystyried ansawdd a chynnwys adroddiadau perfformiad yn flynyddol trwy gynllunio busnes. Yn ystod 2023-2024, rydym wedi dechrau cryfhau a symleiddio ein hadroddiadau misol i'r Bwrdd Gweithredol, gan dynnu sylw at y pwyntiau trafod pwysicaf ar y gyllideb, perfformiad a risg.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system gadarn o reoli risg a rheolaeth fewnol, sydd wedi'i dylunio i reoli yn hytrach na dileu risg a rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo a diweddaru'r fframwaith rheoli risg yn 2021. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch gweithrediad y system rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r cynllun gwaith archwilio mewnol a'i ganfyddiadau, yn ogystal â chynnal adolygiadau sicrwydd cynhwysfawr rheolaidd wedi'u targedu i ymchwilio'n ddyfnach i broblemau risg penodol neu fecanweithiau sicrwydd. Mae'r Cyngor yn ystyried amlygiad corfforaethol i risg mewn cyfarfodydd Agored bob chwarter a'r gofrestr risg gorfforaethol lawn unwaith y flwyddyn.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am alluogi system effeithiol o reoli risg a rheolaeth fewnol ac, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, am sicrhau bod y system

yn effeithiol ar draws y sefydliad. Mae'r Weithrediaeth yn gyfrifol am nodi a gwerthuso risgiau, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith a monitro ac adrodd ar gynnydd. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu amlygiad corfforaethol i risg bob mis.

Mae'r fframwaith risg yn nodi strwythur a phroses glir ar gyfer ymgorffori rheoli risg yn ein gwaith o ddydd i ddydd ar bob lefel o'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys trwy ddefnyddio cofrestrau risg, dangosfyrddau perfformiad a rôl cydlynwyr risg i hyrwyddo rheoli risg o fewn cyfarwyddiaeth, cynnal cofrestr risg y gyfarwyddiaeth ac adolygu cofrestrau risg tîm o bryd i'w gilydd i nodi risgiau cyfansawdd. Rydym wedi parhau i gefnogi'r fframwaith hwn drwy gydol 2023-2024 drwy ddefnyddio sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer y sefydliad cyfan a gweithdai wedi'u teilwra, ac ymgysylltu misol rhwng cydgysylltwyr risg a'r tîm risg a pherfformiad corfforaethol.

Rydym wedi bod yn gweithio ar ymagwedd newydd at reoli risg ar gyfer 2024-2025, gan wahaniaethu rhwng risgiau strategol (y rhai sy'n bygwth ein gallu i gyflawni'r canlyniadau disgwylidig a niweidio ein gallu i dyfu a ffynnu) a risgiau gweithredol (y rhai a allai effeithio ar y gwaith rydym yn ei wneud o ddydd i ddydd) gyda chysylltiadau clir rhyngddynt. Bydd y risgiau'n cael eu goruchwyllo a'u hadolygu gan y tîm Gweithredol a phwyllgorau'r Cyngor sydd yn y sefyllfa orau i gynghori ar sut rydym yn rheoli pob risg. Mae hyn yn sicrhau bod gennym y trosolwg a'r rheolaeth orau o risgiau gyda phwyntiau adolygu lluosog a'n bod yn ymateb i risg yn briodol. Rhoddir rhagor o fanylion yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Effeithiolrwydd ein prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol

Rydym yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ein hamgylchedd rheolaeth fewnol a rheoli risg, gan asesu pob cyfarwyddiaeth yn ôl set o feini prawf allweddol ac adolygu tystiolaeth sampl i sicrhau bod ein hamgylchedd rheolaeth fewnol yn adlewyrchu'r safonau a nodir yn ein polisi a'n canllawiau. Daeth adolygiad 2023-2024 i'r casgliad bod gennym sicrwydd sylweddol ar draws tair o'n cyfarwyddiaethau a sicrwydd rhannol ar gyfer y tair arall. Mae'r rhai a gafodd sicrwydd rhannol yn gweithio tuag at wella'r graddau hynny ac mae arwyddion cynnar yn dangos bod gwelliannau eisoes yn cael eu gwneud. Felly, gallwn ni fod yn sicr bod ein hamgylchedd rheolaeth fewnol yn gweithredu'n ddigonol ar lefel gorfforaethol a chyfarwyddiaethol.

## Materion a risgiau allweddol

Yn yr adran hon rydym yn darparu cyfrif o'r risgiau allweddol a reolwyd gennym yn ystod 2023-2024, y camau a gymerwyd gennym a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd y flwyddyn nesaf.

Fel rhan o'n cofrestr risg strategol newydd ar gyfer 2024-2025, rydym wedi cynnwys risg yn ymwneud â'n cyfrifoldebau diogelu statudol i ddiogelu pobl sy'n dod i gysylltiad â'r NMC drwy ein gwaith rhag dioddef enllibion neu gael eu cam-drin. Roedd hyn yn flaenrol yn ffactor risg ynghylch ein risg cyfreithiol corfforaethol yn 2023-2024 ond rydym bellach wedi creu risg newydd i sicrhau bod diogelu'n cael ei reoli'n briodol gyda'r ffocws a'r amlygrwydd sydd ei angen arno.

Byddwn ni'n rhoi rhagor o fanylion am hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Rydym yn cydnabod y perygl mae newid mewn uwch arweinyddiaeth yn ei gyflwyno i redeg sefydliad yn effeithiol. Yn ystod 2024-2025, cyhoeddodd dau o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol y byddant yn gadael y sefydliad, gan gynnwys Andrea Sutcliffe, Prif Weithredwr a Chofrestrydd, a fydd yn gadael ym mis Gorffennaf 2024 oherwydd salwch. Cafodd cynlluniau eu rhoi ar waith i benodi olynwyr dros dro a pharhaol ac rydym yn hyderus y bydd ein system o reolaethau mewnol, llywodraethiant a phrosesau rheoli risg, yn ogystal ag arbenigedd uwch arweinyddiaeth bresennol yn lliniaru effaith eu hymadawiadau.

## Risg

**Rydym yn methu â chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phryder rheoleiddiol am weithiwr proffesiynol ar ein cofrestr mewn modd amserol neu berson-ganolog**

## Effaith bosibl

Gallai hyn arwain at beryglu diogelwch y cyhoedd a phrofiad gwael i'r rhai sy'n ymwneud â'n prosesau.

## Beth rydym wedi'i wneud i reoli'r risg yn ystod 2023-2024

Fe wnaethom gryfhau ein gwaith achos drwy:

- sefydlu clinigau achos i roi cymorth a chynghor ychwanegol i dimau
- lansio ymagwedd newydd at reoli atgyfeiriadau i wneud yn siŵr ein bod yn datblygu pryderon sy'n briodol i'r NMC
- cryfhau ein tîm arwain addasrwydd i ymarfer i ddarparu goruchwyliaeth a chymorth wedi'i dargedu
- nodi bylchau mewn adnoddau a recriwtio lle bo'n briodol.

Hefyd fe wnaethom waith diagnostig i ailgynllunio ein Cynllun Addasrwydd i Ymarfer er mwyn cryfhau ein hymagwedd. Fe wnaethom hefyd gomisiynu ymchwiliadau annibynnol i bryderon ynghylch gwahaniaethu yn ein prosesau ac ymrwymo i weithredu ar y canfyddiadau.

## Beth rydym yn ei wneud wrth symud ymlaen

Byddwn ni'n cyflwyno ein Cynllun Addasrwydd i Ymarfer 18 mis newydd a byddwn ni'n gweithredu ar ganfyddiadau'r ymchwiliadau annibynnol i bryderon ynghylch ein prosesau.

## Risg

**Nid oes gennym ddiwylliant dysgu sy'n canolbwyntio ar rymuso cydweithwyr i wneud eu gwaith yn dda, i gyflawni a chynyddu cynhyrchiant i roi'r gwasanaeth gorau posibl i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr**

## Effaith bosibl

Gallai hyn arwain at ymgysylltu a datblygu gwael gyda'n pobl, cynhyrchiant isel a chanlyniadau a phrofiadau gwael i weithwyr proffesiynol, atgyfeirwyr a'r cyhoedd.

## Beth rydym wedi'i wneud i reoli'r risg yn ystod 2023-2024

Cyflawnwyd blwyddyn gyntaf ein Cynllun Pobl, a thrwy hynny rydym wedi diwygio ein strwythurau gwobrwyo ac wedi cyflwyno ymagwedd fwy cyson at arfarnu. Rydym hefyd wedi gweithio i wella cynrychiolaeth cydweithwyr o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig mewn uwch rolau. Fe wnaethom gomisiynu ymchwiliadau annibynnol i bryderon am ddiwylliant ein gweithle ac rydym wedi ymrwymo i weithredu ar unrhyw argymhellion.

Er mwyn helpu i ddatblygu diwylliant dysgu, fe wnaethom adolygu ein proses adrodd am ddiwyddiadau a nodi gwelliannau a fydd yn ein cefnogi i reoli digwyddiadau a dysgu ohonynt. Bydd system newydd yn cael ei lansio yn 2024-2025. Fe wnaethom hefyd ddarparu hyfforddiant GDPR, datblygu cynllun gweithredu lliniaru risg diogelu data a sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr GDPR.

## Beth rydym yn ei wneud wrth symud ymlaen

Byddwn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd trwy gyflawni ein Cynllun Pobl a chamau gweithredu eraill, gan gynnwys cyflwyno tâl ar sail perfformiad i wobrwyo ac ysgogi cydweithwyr, parhau i weithio i wella cynrychiolaeth cydweithwyr o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig, cynhyrchu Strategaeth Les newydd, a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau o'r ymchwiliadau annibynnol i ddiwylliant ein gweithle.

## Risg

**Rydym yn methu â chymryd camau priodol nac amserol i fynd i'r afael â phryder rheoleiddiol ynghylch ansawdd addysg nyrsio neu fydwreigiaeth**

### Effaith bosibl

Gallai hyn arwain at brofiadau gwael i fyfyrwyr a diffyg hyfedredd gan fyfyrwyr i ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol.

### Beth rydym wedi'i wneud i reoli'r risg yn ystod 2023-2024

- Fe wnaethom gychwyn adolygiad annibynnol o'n prosesau presennol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.
- Rydym wedi caffael darparwr gwasanaeth sicrhau ansawdd newydd a fydd yn ein galluogi i fod yn fwy ystwyth a hyblyg yn ein hymagwedd.
- Rydym wedi gweithio ar y cyd â sefydliadau addysg a phartneriaid eraill i drafod a lleihau risgiau a nodwyd.

### Beth rydym yn ei wneud wrth symud ymlaen

- Byddwn ni'n cynyddu gallu ac arbenigedd o fewn ein timau i gryfhau monitro systematig o raglenni.
- Byddwn ni'n symud i fodel gwasanaeth SA newydd sy'n canolbwyntio ar ystwythder a hyblygrwydd, ac a gefnogir gan wybodaeth fwy soffistigedig.
- Byddwn ni'n cwblhau'r adolygiad o'n model gweithredu ac yn dechrau rhoi unrhyw welliannau ar waith.

## Risg

**Ein bod yn methu â bodloni disgwyliadau allanol, gan gynnwys ein heffaith ar bobl, sy'n effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gynnal ymddiriedaeth a hyder rhanddeiliaid, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr**

## Effaith bosibl

Anallu i ddylanwadu ar neu gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd neu i gyflawni ein nodau strategol.

## Beth rydym wedi'i wneud i reoli'r risg yn ystod 2023-2024

Rydym wedi parhau i ymgorffori ein hymagwedd strategol at gyfathrebu ac ymgysylltu fel y gallwn ni ddatblygu negeseuon cyson, cydgysylltiedig sy'n cael eu llywio gan fewnwelediad ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ein cynulleidfaoedd ar draws y pedair gwlad.

Wrth reoli heriau sylweddol – er enghraifft, pryderon am weithrediad ein prawf cyfrifiadurol – rydym wedi cyfleu'r pryderon a'n camau gweithredu yn dryloyw, gan ystyried yn ofalus yr effaith ar bobl wrth gynllunio ein cyfathrebiadau.

## Beth rydym yn ei wneud wrth symud ymlaen

Byddwn ni'n parhau i gyfathrebu'n agored am yr heriau rydym yn eu rheoli, gan gynnwys gweithredu argymhellion o'r ymchwiliadau a'r adolygiad diwylliant i bryderon a godwyd ynghylch ein diwylliant a'n haddasrwydd i ymarfer.

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd a phobl sy'n derbyn gofal yn llywio ein gwaith.



# Budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)

Mae ein polisi ar chwythu'r chwiban yn annog cydweithwyr ac eraill sy'n gweithio i ni, neu gyda ni, i godi llais os ydynt yn gweld rhywbeth o'i le. Rydym yn adolygu'r polisi'n rheolaidd ac wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r polisi a'r canllawiau cysylltiedig drwy ei hyrwyddo drwy neges wythnosol y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfathrebiadau mewnol eraill.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn adroddiad ar chwythu'r chwiban ym mhob cyfarfod. Yn ystod 2023-2024 roedd pedwar achlysur pan ddefnyddiodd pobl y polisi chwythu'r chwiban i godi pryderon (2022-2023: un).

Canfuwyd bod yr achos cyntaf yn gŵyn ac felly cafodd ei reoli drwy ein proses gwyno.

Perthynai'r ail achos i bryderon am agweddau o'n gwaith achos rheoleiddiol a'n diwylliant gweithle. Fel yr adroddwyd yn ein hadolygiad perfformiad, fe wnaethom gomisiynu ymchwiliadau annibynnol i'r pryderon hyn, gan gynnwys ymchwiliad i sut y cafodd y pryderon eu trin pan gawsant eu codi gyntaf â ni. Mae canfyddiadau'r adolygiad i'n diwylliant i fod i gael eu cyhoeddi ar 9 Gorffennaf 2024. Rydym yn cydnabod difrifoldeb y canfyddiadau hyn ac rydym yn ymwybodol eithriadol o'r angen i wneud yn well ar gyfer ein cydweithwyr, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o'r canfyddiadau ac wedi dechrau gweithio i ddatblygu cynlluniau gweithredu y byddwn yn cyhoeddi yn gyhoeddus yn eu herbyn, gan gynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Rydym yn disgwyl canfyddiadau'r ymchwiliadau eraill i adrodd yn haf 2024. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o'r adroddiadau a gwneud newidiadau cynaliadwy lle bydd angen i ni, gan gynnwys i'n prosesau chwythu chwiban. Rydym yn gwybod bod angen i ni wneud pethau'n wahanol i gyflawni newid cynaledig ac rydym wedi ymrwymo i wneud hynny.

Roedd y trydydd achos yn ymwneud â phryderon am ddata ac arferion GDPR yn yr NMC. Canfu'r ymchwiliad fod y pryderon ynghylch arferion data eisoes wedi'u cydnabod gan y Weithrediaeth a bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn drwy strategaeth ddata a map ffordd yr NMC. Adolygwyd y mater a godwyd ar GDPR gan y Swyddog Diogelu Data, a ddaeth i'r casgliad bod y maes a nodwyd ar gyfer gwelliant yn annhebygol o gynyddu'r risg i ddiogelwch data personol.

Mae'r pedwerydd achos yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd.

Mae'r NMC yn 'berson rhagnodedig' yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn golygu y gall nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio, myfyrwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n nodi camweddau yn eu gweithleoedd neu leoliadau ymarfer godi pryderon gyda ni. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd â rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill ar sut yr ymdriniwyd â datgeliadau chwythu'r chwiban. Mae'r adroddiad ar y cyd ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban ar gyfer 2022-2023 i'w weld ar ein gwefan [yma](#). Bydd yr adroddiad ar y cyd ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach.

# Diogelu a gwarchod pobl

Trwy ein gwaith rydym yn ymgysylltu ag ystod eang o bobl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'n prosesau rheoleiddio, ein rhanddeiliaid, a'n cydweithwyr. Rydym yn cydnabod y gall fod gan lawer o bobl sy'n ymgysylltu â ni anghenion cymhleth neu y gallant fod mewn perygl o niwed ac rydym wedi ymrwymo i roi'r cymorth priodol yn ei le ar eu cyfer.

Mae ein polisi ar ddiogelu a gwarchod pobl yn nodi ein cyfrifoldebau a'r camau y byddwn ni'n eu cymryd pan fyddwn ni'n nodi pryder diogelu, gan gynnwys sefydlu ymagwedd wedi'i theilwra i gefnogi'r unigolyn dan sylw.

Eleni rydym wedi parhau i weld cynnydd yn nifer y pryderon diogelu a gofnodwyd. Mae cyfanswm o 366 o bryderon diogelu wedi'u cofnodi yn 2023-2024. Mae hyn 222 yn fwy na'r hyn a adroddwyd yn 2022-2023, pan gofnodwyd 144 o bryderon diogelu.

O'r pryderon hyn, roedd 43 o atgyfeiriadau at asiantaethau allanol a oedd yn bryderon newydd i'r asiantaethau. Mae'r cynnydd mewn pryderon diogelu yn dilyn hyfforddiant pellach ac ymgysylltu â chydweithwyr i feithrin eu gwybodaeth am fregusrwydd a diogelu. Atgyfeiriwyd cyfanswm o ddau achos at y Comisiwn Elusennau, lle mae digwyddiad wedi arwain at niwed difrifol neu wedi peri risg ynghylch niwed difrifol.

Yn ystod 2023-2024, rydym wedi cryfhau ein hymagwedd at ddiogelu drwy gyflawni ein cynllun gwaith diogelu a chynyddu goruchwyliaeth drwy symud y swyddogaeth i'n cyfarwyddiaeth Ymarfer Proffesiynol. Byddwn ni'n parhau i adolygu a chryfhau ein hymagwedd at ddiogelu yn 2024-2025.

# Llywodraethu gwybodaeth a methiannau o ran diogelwch amddiffynnol

Yn ystod 2023-2024, fe wnaethom barhau i alinio ein rheolaeth diogelwch gwybodaeth ag ISO 27001, y safon diogelwch gwybodaeth ryngwladol. Caiff digwyddiadau eu hadrodd, eu rheoli a'u hymchwilio yn unol â'n proses Adrodd ar Ddigwyddiadau Difrifol (SER), lle nodir gwersi ac argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o nifer y digwyddiadau diogelwch gwybodaeth a adroddwyd yn fewnol yn 2023-2024, gyda ffigurau 2022-2023 yn cael eu dangos er cymhariaeth. O'r 75 o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth a gofnodwyd yn 2023-2024 (82 yn 2022-2023), roedd 49 (65 y cant) yn datgelu data heb awdurdod (toriadau data).

	2023-2024	2022-2023
Difrifol	1	0
Mawr	2	7
Cymedrol	14	20
Mân	58	55
<b>Cyfanswm</b>	<b>75</b>	<b>82</b>

Yr un digwyddiad a ddosbarthwyd fel difrifol (lefel 5) oedd digwyddiad yn ymwneud â chanolfan brofi partner trydydd parti yn Nigeria a gafodd effaith bosibl ar gywirdeb ein cofrestr. Ceir rhagor o wybodaeth am y modd y deliwyd â'r achos hwn yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn ar dudalen 11.

## Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd

Yn ystod 2023-2024, fe fu un achos o dwyll, yn ymwneud â gweithredu elfen prawf cyfrifiadurol ein Prawf Cymhwysedd. Ceir rhagor o wybodaeth am yr achos a'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddo yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn ar dudalen 11. Ni chanfuwyd unrhyw achosion eraill o dwyll, llwgrwobrwyo na llygredd gwirioneddol neu amheuaeth yn eu cylch (2022-2023: dim).

Mae gennym bolisiau ar waith ar gyfer cydweithwyr ynghylch gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo, buddiannau personol

ac apwyntiadau allanol, chwythu'r chwiban, hawlio treuliau a rhoddion a lletygarwch. Mae'r polisi rhoddion a lletygarwch yn ei le ar gyfer aelodau'r Cyngor, Swyddogion Cyswllt, aelodau Partneriaid a chydweithwyr a chedwir cofrestr o'r holl roddion a lletygarwch a dderbyniwyd neu a wrthodwyd.

Nid yw ein polisi gwrth-dwyll presennol yn sôn am dwyll mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol sy'n ymuno â'r gofrestr. Gan ystyried canfyddiadau'r archwiliad mewnol ar dwyll cofrestru tramor (gweler tudalen 96 o'r adroddiad hwn) yn ogystal â

gwaith a wnaed gan gydweithwyr ar draws y sefydliad, byddwn ni'n adolygu ein polisiau twyll cyffredinol, ein gweithdrefnau a'n hyfforddiant ategol.

Ni nodwyd unrhyw faterion caethwasiaeth fodern yn ystod y flwyddyn hyd yma (2022-2023: dim).

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, fe wnaethom ddiweddarau a chyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern ar ein gwefan ym mis Mehefin 2023 a chaiff datganiad eleni ei gyhoeddi ar ôl ei gymeradwyo ym mis Mehefin 2024.

## Proses Adolygu Digwyddiad Difrifol

Trwy ein proses Adolygu Digwyddiad Difrifol (SER), rydym yn ymchwilio i ddigwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd fel y gallwn ni ddysgu oddi wrthynt a gwella'r ffordd rydym yn gweithio. O dan ein proses adrodd am ddigwyddiadau, rydym yn gwahaniaethu rhwng Digwyddiadau Niweidiol (Als) a Digwyddiadau Difrifol (SEs) yn seiliedig ar ddifrifoldeb y digwyddiad. Mae digwyddiadau'n cael eu dosbarthu fel Als pan ydynt yn cael effaith fach iawn ar ein sefydliad a'n gwaith, er eu bod yn dal i ddarparu dysgu gwerthfawr. Mae SEs yn ddigwyddiadau sy'n effeithio, mewn gwirionedd neu o bosibl, yn fwy difrifol ar ein sefydliad a'n gwaith. Adroddir ar yr hyn a ddysgir o adroddiadau hunanasesu i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis.

Yn ystod 2023-2024, adroddwyd am gyfanswm o 169 o ddigwyddiadau corfforaethol a digwyddiadau a fu bron â digwydd o gymharu â 160 ar gyfer 2022-2023. O'r 169 o ddigwyddiadau corfforaethol a adroddwyd yn 2023-2024, dosbarthwyd 61 fel SEs (o gymharu â 65 yn 2022-2023), ac roedd y 108 arall yn Als (o gymharu â 95 yn 2022-2023). Digwyddodd mwyafrif y Digwyddiadau Difrifol (85 y cant ar gyfer 2023-2024) o fewn y gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Proffesiynol.

Mae adrodd ar SERs a dysgu oddi wrthynt yn allweddol i wella ein perfformiad fel rheolydd. Rydym am gryfhau ein diwylliant i un o ddysgu a bod yn agored, gan annog adrodd ar bob lefel yn y sefydliad. I gyflawni hyn, rydym wedi adolygu'r broses bresennol adrodd am ddigwyddiadau, gan gynnwys ymgymryd ag archwiliad mewnol, a chynllun i gyflwyno ymagwedd newydd at adrodd yn 2024-2025 o'r enw Cofnodi a Dysgu, fydd yn cael ei hategu gan gronfa ddata newydd. Mae proses adrodd am ddigwyddiadau sydd wedi'i rheoli'n dda ac sydd wedi'i gwreiddio'n llawn yn ffynhonnell allweddol o ddysgu corfforaethol ac yn rhan bwysig o ymagwedd yr NMC at reoli risg. Bydd y broses newydd yn chwarae rhan bwysig wrth symud ein diwylliant i fod yn fwy agored a thryloyw pan fydd camgymeriadau'n codi, fel y gall y sefydliad ddysgu oddi wrthynt ar y cyd, ac atal rhag digwydd eto a/neu waethygu. Wrth i'r gweithgarwch i leihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer gynyddu, bydd y system newydd yn atgyfnerthu ein dysgu ac yn ein helpu i ddarparu gwell cymorth i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd.

# Dysgu oddi wrth gwynion am ein gwaith

Mae cwynion o bwys i ni. Pob tro mae mater yn cael ei godi gan unigolyn sy'n defnyddio ein gwasanaethau mae'n darparu cyfle pwysig i ni feithrin diwylliant dysgu a gwella'n barhaus.

Nodwyd 154 o bwyntiau dysgu o gwynion a wnaed i ni yn 2023-2024 (2022-2023: 127) a ddefnyddiwyd gennym i wella ein gwasanaethau.

Yn 2023-2024, cawsom 1,634 o gwynion ffurfiol (2022-2023: 1,280). Fe wnaethom ymateb i 92 y cant o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith (2022-2023: 91 y cant o fewn 20 diwrnod gwaith).

O'r 1,634 o gwynion cyffredinol, roedd 996 yn ymwneud â cheisiadau agored i'n cofrestr. Cawsom hefyd 406 o gwynion gan bobl a oedd yn gysylltiedig ag achos addasrwydd i ymarfer agored.

Cawsom 49 (2022-2023: 44) o gwynion gan seneddwyr, gan gynnwys aelodau o Senedd y DU

a deddfwrfeydd datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. O'r 49 o gwynion a gawsom yn 2023-2024, fe wnaethom ymateb i 44 (90 y cant) o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith (2022-2023: 73 y cant).

Ein nod yw ymdrin ag unrhyw gwynion am y gwasanaeth a ddarparwyd gennym mewn ffordd deg ac amserol, gan drin y rhai sy'n codi cwynion â pharch a gwranddo ar eu pryderon. Yn dilyn ein hymateb, arhosodd 38 o bobl yn anhapus (2022-2023: 21). Fe wnaethom adolygu'r ffordd yr ymdriniwyd â'r rhain mewn 17 diwrnod gwaith ar gyfartaledd (2022-2023: 17 diwrnod gwaith).

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad ein swyddogaeth Ymholiadau a Chwynion. Byddwn ni'n cynnal adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'n dull o ymdrin â chwynion cymhleth yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer yn 2024-2025 a byddwn ni'n rhoi'r camau gweithredu sy'n codi ar waith.

## Rhyddid gwybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i fod mor agored a thryloyw â phosibl, wrth gadw at ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data. Mae hyn yn cynnwys hawl pobl i gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol, a'r hawl i herio'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn prosesu eu data personol. Rydym hefyd yn ymateb i geisiadau datgelu trydydd parti gan sefydliadau megis y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Disclosure Scotland, y gallwn ni rannu gwybodaeth bersonol â nhw os oes sail gyfreithiol dros ddatgelu.

Derbyniwyd 373 o geisiadau rhyddid gwybodaeth ac ymatebwyd i 90 y cant o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith. Mae hyn yn cymharu ag 88 y cant o 326 o geisiadau ar gyfer 2022-2023.

Derbyniwyd 1,176 o geisiadau trydydd parti ac ymatebwyd i 95 y cant o fewn y terfyn amser statudol o un mis calendr. Mae hyn yn cymharu â 95 y cant o 1,059 o geisiadau ar gyfer 2022-2023.

Derbyniwyd 420 o geisiadau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac ymatebwyd i 93 y cant o fewn y terfyn amser statudol o un mis calendr. Mae hyn yn cymharu â 90 y cant o 350 o geisiadau ar gyfer 2022-2023.

Cyfanswm y ceisiadau am wybodaeth yr ymatebwyd iddynt ar amser eleni oedd 1,872 allan o 1,969, sef 95 y cant (2022-2023: 1,609 allan o 1,735; 93 y cant).

Os bydd rhywun yn anhapus â sut yr ymdriniwyd â'u cais am wybodaeth, gallant ofyn am adolygiad mewnol.

Cawsom gyfanswm o 20 cais am adolygiadau mewnol yn ystod 2023-2024 (2022-2023: 29 cais). Mae hyn yn gymesur isel iawn: dim ond 1 y cant o achosion.

Pan fydd pobl yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl canlyniad eu hadolygiad mewnol, gallant ein hatgyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Pan fydd yr ICO yn dewis ymchwilio y tu hwnt i ymholiadau cychwynnol bydd yn ceisio rhagor o wybodaeth gennym ni, ac, yn 2023-2024, nid oedd unrhyw achosion o'r fath (2022-2023: dim achosion).

Drwy gydol 2023-2024 rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein tîm Gwybodaeth Cwsmeriaid a Cheisiadau Data. Mae cydweithwyr wedi bod yn dilyn Tystysgrifau Ymarferydd GDPR Uwch i sicrhau ein bod mor dryloyw â phosibl yn ein hymatebion o fewn ffiniau'r gyfraith.

## Adrodd am ddigwyddiad difrifol/ digwyddiad hysbysadwy

Mae materion y mae angen adrodd arnynt i'r Comisiwn Elusennau yn cael eu nodi trwy sawl llwybr, gan gynnwys ein polisiau a'n prosesau ar gyfer Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol; Chwythu'r chwiban; Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd; a Diogelu. Yn unol â chanllawiau gan y Comisiwn Elusennau (CC) a Swyddfa Cofrestr Elusennau'r Alban (OSCR), pan ydym yn nodi mater, gofynnir am ganiatâd y Cyngor, fel ymddiriedolwyr, i adrodd i'r Comisiwn Elusennau. Os oes angen adrodd yn fwy brys, rydym yn gofyn am ganiatâd y Cadeirydd a hysbysir y Cyngor cyn gynted â phosibl.

Yn ystod 2023-2024, fe wnaethom hysbysu'r Comisiwn Elusennau o bedwar digwyddiad difrifol. Roedd dau o'r achosion yn deillio o faterion diogelu. Rydym yn aros am ohebiaeth gan y Comisiwn ar un o'r achosion hyn, roedd y Comisiwn yn fodlon bod yr achos arall wedi'i drin yn briodol ac yn gyfrifol. Fel y nodwyd yn adran diogelu'r adroddiad hwn, rydym yn bwrw ymlaen â chymau i gryfhau ein hymagwedd at ddiogelu ymhellach.

Mae'r ddau achos arall yn ymwneud â digwyddiadau a drafodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Y rhain yw:

- y digwyddiad yn ymwneud â gweithredu elfen prawf cyfrifiadurol ein prawf cymhwysedd, yr oedd y Comisiwn yn fodlon ei fod yn cael ei drin yn briodol ac yn gyfrifol
- pryderon am agweddau ar ein gwaith achos rheoleiddio a'n diwylliant yn y gweithle, sy'n dal i gael eu hymchwilio.

Hyd yma rydym wedi hysbysu'r Comisiwn Elusennau am un digwyddiad difrifol yn 2024-2025. Roedd hyn yn ymwneud â'r pryder diweddaraf ynghylch chwythu'r chwiban sy'n destun ymchwiliad.

Gan ein bod wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, nid yw'n ofynnol i ni adrodd am ddigwyddiadau i Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) hefyd. Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i atebolrwydd pedair gwlad, rydym yn adrodd am bob digwyddiad perthnasol i'r OSCR yn ogystal â'r Comisiwn Elusennau.

## Goruchwyliaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn goruchwyllo ac yn adrodd i'r Senedd ar waith rheolyddion proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr NMC. Ar 5 Medi 2023, cyhoeddodd y PSA ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad rhwng Gorffennaf 2022 a Mehefin 2023. Canfu ein bod wedi bodloni 17 o'r 18 Safon Rheoleiddio Da ond nad oeddem wedi bodloni Safon 15 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer mor gyflym ag sy'n gyson â datrysiad teg i'r achos.

Hon oedd y bedwaredd flwyddyn yn olynol nad oeddem wedi cyrraedd safon 15. Mewn ymateb, ar 29 Awst 2023 anfonodd y PSA lythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol a gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig yn cadarnhau nad oeddem wedi bodloni Safon 15 eto. Roeddent yn cydnabod mai mynd i'r afael â'r llwyth achosion uchel a gwella'r amser y mae'n ei gymryd i reoli pryderon addasrwydd i ymarfer yw ein prif flaenoriaeth o hyd.

Nodwyd hefyd waith y cynllun gwella addasrwydd i ymarfer i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Roeddem wedi bod yn briffio gweinidogion perthnasol a swyddogion y llywodraeth yn rheolaidd ac wedi darparu diwedddariad pellach mewn perthynas â gwaith parhaus i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys y cynllun gwella 18 mis addasrwydd i ymarfer, cymorth allanol a chynnydd mewn adnoddau mewnol

Roedd yr adroddiad PSA hefyd yn cynnwys adborth cadarnhaol ar waith yr oeddem wedi'i wneud, gan gynnwys newidiadau a wnaethom i'n gofynion iaith Saesneg a'n safonau addysg cyn cofrestru, a'r ymchwil a wnaethom i effaith ein prosesau rheoleiddio ar weithwyr proffesiynol â nodweddion amrywiaeth gwahanol.

# Barn flynyddol archwilio mewnol 2023-2024

Cytunir ar ein rhaglen archwilio mewnol blynyddol seiliedig ar risg ac mae'n cael ei goruchwyllo gan ein Pwyllgor Archwilio. Roedd y rhaglen ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys saith archwiliad mewnol. Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd y byddai dau

o'r archwiliadau arfaethedig yn cael eu haildrefnu i 2024-2025 i ganiatáu ar gyfer archwiliadau mewnol ar y meysydd blaenoriaeth canlynol: Cofrestru Tramor (Asesiad Risg Twyll) a'n proses Adolygu Digwyddiad Difrifol.

Aseiniad Archwilio Mewnol	Asesiad
Rheolaeth Ariannol Rheolaeth Ariannol – Prosesau Cyllid diwedd mis a diwedd blwyddyn	Sicrwydd sylweddol
Newid a Gwelliant Parhaus	Sicrwydd rhesymol
Data Codio a Chyfeirio – Sefydliadau Addysg Cymeradwy Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol	Sicrwydd rhannol
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – Atebolrwydd Cofrestru Tramor (Asesiad Risg Twyll)	Amh. gan fod yr aseiniad yn un cynghorol

Manylion pellach am archwiliadau a dderbyniodd asesiad o sicrwydd rhannol:

- Data Codio a Chyfeirio – Sefydliadau Addysg Cymeradwy: Diben yr archwiliad hwn oedd ystyried sut yr oedd yr NMC wedi dysgu o faterion data codio a chyfeirio a oedd wedi achosi oedi i nifer sylweddol o fyfyrwyr a oedd newydd gymhwyso rhag cofrestru gyda'r NMC. Canfu'r archwiliad fewnbwn sylweddol i fynd i'r afael â'r mater a lleihau'r posibilrwydd y byddai'n digwydd eto. Fodd bynnag, nododd wendidau

rheoli yn ymwneud â'r broses Adolygu Digwyddiad Difrifol, gan gynnwys amseriad codi'r SER ac olrhain camau gweithredu, rheoli a monitro. Fel y nodwyd yn adran SER yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu i wella'r maes hwn, gan gynnwys gweithredu proses Mewngofnodi a Dysgu newydd.

- Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol (SERs): Diben yr archwiliad oedd cefnogi datblygiad ein proses rheoli digwyddiadau drwy ystyried ei heffeithiolrwydd presennol a



nodi meysydd i'w gwella wrth i ni ddatblygu proses newydd (Mewngofnodi a Dysgu). Canfu'r archwiliad wendidau o ran nodi a rhannu themâu dysgu ar draws y sefydliad, ansawdd data o fewn y gronfa ddata ac, mewn rhai achosion, cwblhau ymchwiliadau a chamau gweithredu mewn modd amserol. Nododd hefyd angen i sicrhau eglurder o ran atebolrwydd ar gyfer rhoi unrhyw bwyntiau dysgu ar waith a sicrhau bod ymagwedd seiliedig ar risg yn cael ei defnyddio wrth nodi camau gweithredu. Mae'r Weithrediaeth yn gweithio i sicrhau bod y broses rheoli digwyddiadau newydd (Mewngofnodi a dysgu) yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Hefyd o bwys arbennig oedd yr archwiliad cynghorol ar gofrestru tramor (twyll). Ymgwymerwyd â hyn yn dilyn pryderon am weithrediad y prawf seiliedig ar gyfrifiadur yng Nghanolfan Profion Technolegau Ynnik yn Ibadan, Nigeria, lle gwnaethom adnabod gweithgaredd twyllodrus. Mae'r camau a gymerwyd gennym mewn ymateb i hyn i'w gweld yn adran Adolygu Perfformiad yr adroddiad hwn. Asesodd yr archwiliad hwn y trefniadau gwrth-dwyll sydd ar waith ar draws y sefydliad yn ogystal â'r trefniadau contractiol gyda Pearson Vue (darparwr CBT yr NMC) i nodi unrhyw wendidau a gwersi a ddysgwyd. Ar y cyfan, canfu'r archwiliad fod prosesau wedi'u cynllunio'n gadarn.

Fodd bynnag, nododd rai meysydd lle gellid cryfhau rheolaethau ac ailedrych ar drefniadau – er enghraifft datblygu polisi twyll ehangach sy'n ymestyn y tu hwnt i dwyll ariannol, egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli twyll a sicrhau bod contractau trydydd parti yn ddigon cadarn. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd.

Mae ein harchwilydd mewnol yn adolygu gweithredu argymhellion archwilio ac mae'n darparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Ni chafodd tair gweithred o'r archwiliad SER yn 2022–2023 eu gweithredu a chawsant eu hailgodi fel rhan o'r archwiliad a wnaed yn 2023–2024. Mae pob argymhelliad arall o archwiliadau, lle mae gweithredu wedi syrthio'n ddyledus yn y cyfnod, wedi cael eu gweithredu neu cawsant eu disodli.

Barn flynyddol gyffredinol Pennaeth Archwilio Mewnol yw fod:

**“Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol.”**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth

Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol.

Wrth gyrraedd ein hasesiad, rydym wedi dibynnu ar ystod o dystiolaeth, gan gynnwys barn ac adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, yr asesiad corfforaethol o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith mewn cyfarwyddiaethau a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd rheoli risg. Rydym hefyd wedi dibynnu ar Adroddiad Barn a Chanfyddiadau Archwilio ein harchwilydd allanol ac Adroddiad Cwblhau'r Archwiliad a Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod sicrwydd rhesymol bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Rydym yn cydnabod yr angen i gynnal lefel uchel o graffu ar adfer ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer, y gwelliannau i'r broses SER a dilyniant y rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg a'r gwelliannau a ddaw yn sgil systemau TG mwy effeithiol a mwy o ddefnydd o systemau awtomataidd.

**Syr David Warren**  
**Cadeirydd**  
**3 Gorffennaf**  
**2024**

**Andrea Sutcliffe**  
**Prif Weithredwr a**  
**Chofrestrydd**  
**3 Gorffennaf**  
**2024**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth

---

# Barn

---

Rydym wedi archwilio cyfrifon y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (y 'Cyngor') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys y datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, y datganiad llifau arian parod a'r nodiadau i'r cyfrifon, gan gynnwys polisiâu cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r cyfrifon:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y defnyddiwyd adnoddau, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion y penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

# Sail y farn

---

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r adran cyfrifon yn ein hadroddiad.

Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r cyfrifon yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

# Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

---

Wrth archwilio'r cyfrifon, daethom i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r cyfrifon yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennym, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol o ran digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth

sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r cyfrifon.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

---

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y cyfrifon a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a geir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn am y cyfrifon yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac ni fynegwn unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r cyfrifon neu ein gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yr ymddengys ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol.

Os nodwn y cyfryw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni bennu p'un a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon eu hunain. Os down i'r casgliad, ar sail ein gwaith, fod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, rhaid i ni nodi hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi yn hyn o beth.

# Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â hwy, yn ei gwneud yn ofynnol inni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y cyfrifon yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol ag Adroddiad y Cyngor; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol na phriodol; neu
- nid yw'r cyfrifon yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r Cyngor (sef yr Ymddiriedolwyr) yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr i allu paratoi cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Wrth baratoi'r cyfrifon,

mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu rhoi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt opsiwn amgen realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r cyfrifon

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan adran 52 (2) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd), adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a

Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac yn cyflwyno adroddiadau yn unol â'r Deddfau a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n weithredol o dan y ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r cyfrifon gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y cyfrifon hyn.

Achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a nodwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Fel rhan o'n proses gynllunio:

- Gwnaethom holi'r rheolwyr am y systemau a'r rheolaethau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith a'r rhannau o'r cyfrifon sydd fwyaf agored i'r risg o afreoleidd-dra a thwyll a gofyn iddynt a oedd unrhyw achosion hysbys, honedig neu a amheuir o dwyll. Ni wnaeth y Cyngor ein hysbysu am unrhyw achosion hysbys, honedig neu a amheuir o dwyll.
- Gwnaethom feithrin dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Cyngor. Penderfynwyd mai'r canlynol oedd y rhai mwyaf perthnasol: y

SORP Elusennau, Safon Adrodd Ariannol 102, Deddf Elusennau 2011, Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a dyfarniad y Cyfrin Gyngor a roddwyd o dan y gorchymyn hwnnw a gofynion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol.

- Gwnaethom ystyried y cymhellion a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn y Cyngor, gan gynnwys graddau tuedd rheolwyr, sy'n cynnig y potensial i afreoleidd-dra a thwyll barhau, a theilwra ein hasesiad risg yn unol â hynny.
- Gan ddefnyddio ein gwybodaeth am y Cyngor, ynghyd â'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Cyngor ar y cam cynllunio, daethom i gasgliad ynglŷn â'r risg o gamddatganiadau oherwydd afreoleidd-dra gan gynnwys twyll a theilwra ein gweithdrefnau yn unol â'r asesiad risg hwn.

Roedd y gweithdrefnau allweddol a gyflawnwyd gennym er mwyn canfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll yn ystod yr archwiliad yn cynnwys:

- Nodi a phrofi cofnodion mewn dyddlyfrau a'r cofnodion cyfrifyddu yn gyffredinol, yn arbennig y rhai a oedd yn arwyddocaol ac yn anarferol.
- Adolygu datgeliadau'r cyfrifon a phenderfynu a yw polisïau cyfrifyddu wedi'u cynhwyso'n briodol.
- Adolygu a herio'r tybiaethau a'r dyfarniadau a ddefnyddiwyd gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol, yn enwedig mewn perthynas â rhwymedigaeth y pensiwn budd diffiniedig a darpariaeth y panelwyr.

- Asesu graddau'r gydymffurfiaeth, neu ddiffyg cydymffurfiaeth, â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol.
- Profi llinellau incwm allweddol, yn enwedig torbwyntiau, er mwyn canfod tystiolaeth o duedd rheolwyr.
- Asesu dilysrwydd y broses o ddsbarthu incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau rhwng cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig.
- Dilysu asedau allweddol yn ffisegol.
- Cael cadarnhad trydydd parti o falansau banc a buddsoddiad perthnasol.
- Dogfennu a gwirio pob balans a thrafodiad parti cysylltiedig sylweddol.

- Adolygu dogfennaeth yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd bwrdd i weld a oeddent yn cyfeirio at drafodaethau ynghylch afreoleiddra, gan gynnwys twyll.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg, na ellir ei hosgoi, na fyddwn wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau cyfrifyddu. Ymddiriedolwyr y Cyngor sy'n bennaf cyfrifol am atal a chanfod afreoleiddra a thwyll.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: <https://www.frc.org.uk>. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

## Defnyddio ein hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr y Cyngor, fel corff, yn unig, yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr y Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am y Cyngor ac ymddiriedolwyr y Cyngor fel corff, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Y Cyfieithiad Cymraeg

Rydym wedi adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiadau hyn.

### HW Fisher LLP

Cyfrifwyr Siartedig  
Archwilydd Statudol

3 Gorffennaf 2024

Acre House  
11-15 William Road  
Llundain  
NW1 3ER  
Deyrnas Unedig



# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a dau Dy'r Senedd

---

# Barn ar ddatganiadau ariannol

---

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Mantolen fel ar 31 Mawrth 2024;
- Datganiad Gweithgareddau Ariannol a Llif Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safonau Adrodd Ariannol (SAA) 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) yw'r fframwaith adrodd cyllidol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2024 a'i adnoddau yn dyfod i mewn a'i ddefnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

## Barn ar reoleidd-dra

---

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

# Sail ar gyfer barn

---

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (SARh DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 **Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleiddra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)**. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran **Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol** fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer fy marn.

# Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

---

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o gyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

# Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid y datganiadau ariannol fy nhystysgrif archwilio wedi hynny. Y Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau

ariannol neu a yw'n ymddangos bod fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn cael ei chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i fi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i fi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r penderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol rwyf yn adrodd wrthy ch os, yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r Adroddiad Blynyddol; neu

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol wedi'u cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir yn Neddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) neu Ddeddf Elusennau 2011, neu fel

sy'n ofynnol gan y penderfyniadau a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â phenderfyniadau gan y Cyfrin Gyngor

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon, y Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Cyngor yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiad

perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Cyngor naill ai'n bwriadu rhoi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis realistig ond gwneud hynny..

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, i'w gweld isod.

Fel rhan o fy mhroses gynllunio:

- Holais reolwyr am y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith gan yr elusen, meysydd y datganiadau ariannol sydd fwyaf agored i'r risg o afreoleidd-dra a thwyll, ac a oedd unrhyw dwyll hysbys, amheus neu honedig. Ni wnaeth yr elusen roi gwybod i fi am unrhyw dwyll hysbys, amheus neu honedig.
  - Cefais ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r elusen. Penderfynais mai'r canlynol oedd fwyaf perthnasol: SORP elusennol, SAA 102, Deddf Elusennau 2011, a gofynion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
  - Ystyriais y cymhellion a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr elusen, gan gynnwys graddau'r duedd reoli, sy'n peri potensial i afreoleidd-dra a thwyll barhau, a theilwra fy asesiad risg yn unol â hynny.
  - Gan ddefnyddio fy ngwybodaeth am yr elusen, ynghyd â'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r elusen yn ystod y cam cynllunio, ffurfiais farn ar y risg o gamddatgan oherwydd afreoleidd-dra gan gynnwys twyll a theilwriais fy ngweithdrefnau yn unol â'r asesiad risg hwn
- Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Gorchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) a'r Elusennau ac Ymddiriedolwyr. Deddf Buddsoddi (yr Alban) 2005. Roedd y gweithdrefnau allweddol a ddilynais i ganfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll yn ystod yr archwiliad yn cynnwys:
- Nodi a phrofi cofnodion yn y cofnodion cyfrifyddu cyffredinol, yn enwedig y rhai a oedd yn arwyddocaol ac yn anarferol.
  - Adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phenderfynu a oedd polisiau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n briodol.
  - Adolygu a herio'r tybiaethau a'r farn a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â'r rhwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig a'r ddarpariaeth panelwyr.
  - Aseu i ba raddau y cydymffurfiwyd, neu na chydymffurfiwyd, â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol.
  - Profi llinellau incwm allweddol, yn enwedig torbwyntiau, am dystiolaeth o ragfarn reoli.

- Asesu dilysrwydd dosbarthu incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau rhwng cronfeydd anghyfyngedig a chronfeydd cyfyngedig.
- Cyflawni gwiriad ffisegol o asedau allweddol.
- Cael cadarnhad trydydd parti o falansau banc a buddsoddi materol.
- Dogfennu a gwirio holl falansau a thrafodion partïon cysylltiedig arwyddocaol.
- Adolygu dogfennau megis cofnodion y bwrdd ar gyfer trafodaethau am afreoleidd-dra gan gynnwys twyll.
- Wrth fynd i'r afael â'm sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra, ystyried unrhyw daliadau arbennig a wnaed yn ystod y flwyddyn, adolygiad o bapurau a chofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio ac adolygiad cymharol cyffredinol o'r flwyddyn gyfredol i'r flwyddyn flaenorol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel nad wyf efallai wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol er fy mod wedi cynllunio a pherfformio fy archwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Y Cyngor sy'n bennaf gyfrifol am atal a chanfod afreoleidd-dra a thwyll.

Ceir disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: <https://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities>. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y

dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad

---

I have no observations to make on these financial statements.

## Cyfieithiad Cymraeg

---

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoel. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

### Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

4 Gorffennaf 2024

National Audit Office  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain  
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024



**Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024**

		Anghyfyng		Cyfyng	Bl. gorffen 31 March 2024		Anghyfyng		Cyfyng	Bl. gorffen 31 March 2023	
	Noder	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	

**Incwm:**

Gweithgareddau elusennol:

Ffioedd	2	103,338	-	103,338	100,433	-	100,433
Grantiau	3	-	-	-	-	199	199
Incwm arall	3	114	-	114	172	-	172
<b>Cyfanswm</b>		103,452	-	<b>103,452</b>	100,605	199	<b>100,804</b>
Incwm buddsoddi:	3	3,763	-	3,763	2,081	-	2,081
<b>Cyfanswm yr incwm</b>		107,215	-	<b>107,215</b>	102,686	199	<b>102,885</b>

**Gwariant:**

Codi arian	4	(173)	-	(173)	(166)	-	(166)
Gweithgareddau elusennol	5	(108,160)	-	(108,160)	(97,736)	(199)	(97,935)
<b>Cyfanswm</b>		(108,333)	-	<b>(108,333)</b>	(97,902)	(199)	<b>(98,101)</b>

**Incwm net cyn enillion net/(colledion) ar fuddsoddiadau**

		(1,118)	-	<b>(1,118)</b>	4,784	-	<b>4,784</b>
Enillion/(colli) ar fuddsoddiadau	14	3,204	-	3,204	(1,855)	-	(1,855)
<b>Incwm net</b>		2,086	-	<b>2,086</b>	2,929	-	<b>2,929</b>

**Enillion cydnabyddedig eraill/(colledion):**

Enillion actiwaraid ar gynllun pensiwn buddion diffiniedig ac addasiadau terfyn asedau	19	-	-	-	(2,458)	-	(2,458)
<b>Symud net mewn cronfeydd</b>		2,086	-	<b>2,086</b>	471	-	<b>471</b>

**Cymodi arian:**

Cyfanswm yr arian a gyflwynwyd		76,782	-	76,782	76,311	-	76,311
<b>Cyfanswm yr arian yn cael ei gario ymlaen</b>		78,868	-	<b>78,868</b>	76,782	-	<b>76,782</b>

Mae'r holl arian a ddygwyd ac a ddygir ymlaen yn anghyfyngedig yn y blynyddoedd ariannol presennol a blaenorol. Roedd yr holl weithgareddau a adlewyrchir yn ystod y ddau gyfnod uchod yn deillio o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mantolen ar 31 Mawrth 2024	Ar 31 Mawrth 2024		Ar 31 Mawrth 2023
	Noder	£'000	£'000
<b>Asedau sefydlog</b>			
Asedau anniriaethol	11	20,193	14,169
Asedau diriaethol	12	16,632	18,152
Buddsoddiadau	14	38,557	34,676
<b>Cyfanswm asedau sefydlog</b>		<b>75,382</b>	<b>66,997</b>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Dyledwyr	15	4,519	3,770
Buddsoddiadau	14	16,585	29,612
Arian parod ac mewn cyfrif banc		46,088	37,631
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>		<b>67,192</b>	<b>71,013</b>
<b>Rhwymedigaethau:</b>			
Credydwyr: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn	16	(59,853)	(58,006)
<b>Cyfanswm y rhwymedigaethau presennol</b>		<b>(59,853)</b>	<b>(58,006)</b>
<b>Asedau cyfredol net</b>		<b>7,339</b>	<b>13,007</b>
<b>Holl asedau minws rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>82,721</b>	<b>80,004</b>
Credydwyr: symiau sy'n daladwy ar ôl mwy nag un blwyddyn	17	-	(18)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	18	(3,853)	(3,204)
<b>Cyfanswm asedau net</b>		<b>78,868</b>	<b>76,782</b>
<b>Cronfeydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth</b>			
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>		<b>78,868</b>	<b>76,782</b>
<b>Cyfanswm y cronfeydd</b>		<b>78,868</b>	<b>76,782</b>

Cymeradwyodd y Bwrdd Ymddiriedolwyr y cyfrifon ar 3 Gorffennaf 2024 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

**Sir David Warren**  
Cadeirydd  
3 Gorffennaf 2024

**Andrea Sutcliffe**  
Prif Weithredwr a Chofrestrydd  
3 Gorffennaf 2024

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024**

**Bl. yn gorffen  
31 Mawrth 2024**

**Bl. yn gorffen  
31 Mawrth 2023**

	<b>Note</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Arian o weithgareddau</b>			
<b>Arian net o weithgareddau</b>		<b>932</b>	<b>5,821</b>
<b>Arian o fuddsoddiadau</b>			
Llog a enillir o adneuron banc	3	2,851	1,222
Tynnu arian parod - adneuron tymor byr a hirdymor		13,027	18,513
Buddsoddi - asedau sefydlog	14	-	(3,000)
Prynu asedau diriaethol ac anniriaethol	11 & 12	(8,353)	(6,806)
<b>Arian net a ddarperir gan/(a ddefnyddir yn) gweithgareddau buddsoddi</b>		<b>7,525</b>	<b>9,929</b>
<b>Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd</b>		<b>8,457</b>	<b>15,750</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn</b>		<b>37,631</b>	<b>21,881</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn</b>		<b>46,088</b>	<b>37,631</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 140 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Cysoni incwm net i lif arian net o weithgareddau****Bl. yn gorffen  
31 Mawrth 2024****Bl. yn gorffen  
31 Mawrth 2023**

	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Incwm net o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol)	2,086	2,929
Llog a enillir o adneuoan banc	(2,851)	(1,222)
Difidendau a llog a enillir o bortffolio buddsoddi asedau sefydlog	(908)	(859)
(Ennill)/colled ar fuddsoddiadau	(3,146)	1,855
Tâl rheoli buddsoddiadau	173	166
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio	3,793	3,163
Colled ar Waith Cyfalaf ar y Gweill wrth waredu	56	-
(Cynnydd) dyledwyr	(749)	(464)
Cynnydd mewn credydwyr a darpariaethau	2,478	2,711
Addasiadau cynllun pensiwn	-	(2,458)
<b>Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu</b>	<b>932</b>	<b>5,821</b>

**Dadansoddiad o arian parod a chyfwerth ag arian parod****Bl. yn gorffen  
31 Mawrth 2024****Bl. yn gorffen  
31 Mawrth 2023**

	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Arian parod a mewn cyfrif banc	7,888	9,845
Buddsoddiadau tymor byr <sup>4</sup>	38,200	27,786
	<b>46,088</b>	<b>37,631</b>

<sup>4</sup> Gweler nodyn 14 o fuddsoddiadau

# Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

---

Nid oedd gan y CNB ddyled yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau, FRS 102:

Yn y fantolen, mae arian parod ac mewn cyfrif banc yn golygu cyfrifon banc gyda mynediad unionsyth neu fuddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis i ddyddiad y fantolen. Mae buddsoddiadau sydd yn aeddfedu rhwng tri a deuddeg mis yn cael eu cyfri fel buddsoddiadau asedau cyfredol.

Yn y dadansoddiad uchod o arian parod a chyfwerth ag arian parod, mae arian parod ac mewn cyfrif banc yn golygu cyfrifon banc gyda mynediad unionsyth tra bod buddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis i ddyddiad y fantolen yn cael eu categorio fel buddsoddiadau tymor byr.

Yn nodyn 14, mae buddsoddiadau sydd yn aeddfedu rhwng tri a 12 mis wedi'u nodi fel dyddodion tymor byr.

Nid yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cadw unrhyw arian corfforol.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Sail polisiâu paratoi a chyfrifo

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau 2019 (FRS102). Fel y nodir yn ein Cyfarwyddyd Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor, sy'n cael eu dyblygu yn Atodiad 1, rydym hefyd yn ystyried Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), i'r graddau bod gofynion y FReM yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau.

Rydym yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102.

Mae'r prif bolisiâu cyfrifo a fabwysiadwyd, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd wrth baratoi'r cyfrifon fel a ganlyn:

### a. Mater parhaus

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail mater parhaus.

Ein nod yw diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym yn cael ein hariannu gan y ffioedd cofrestru a delir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Gan ystyried ein ffynhonnell incwm gymharol ddiogel a'n cronfeydd wrth gefn sylweddol, mae'r Cyngor wedi adolygu ein hamgylchiadau, cynlluniau gwaith, cyllidebau, rhagolygon llif arian a'n lefelau cronfeydd wrth gefn presennol a rhagwelwyd ac mae'n gyfforddus â chyllidebau diffyg yn y tymor canolig (3-5 mlynedd) wrth i ni ariannu rhaglenni buddsoddi sylweddol.

Mae ymarferion ymgynghori gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar fodel rheoleiddio'r Deyrnas Unedig ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a phasio 'Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Meddygon Cyswllt 2024' yn nodi'n glir rhagdybiaeth yr angen parhaus am ein swyddogaethau rheoleiddio yn y dyfodol.

O ystyried yr angen parhaus am ein swyddogaethau rheoleiddio a'n sefyllfa ariannol a amlinellir uchod, mae'r Cyngor o'r farn bod adnoddau digonol yn parhau i fod ar gael i ariannu ein gweithgareddau hyd y gellir rhagweld, ac nid oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch gallu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel mater parhaus.

### b. Confensiwn Cyfrifeg

Rydym yn paratoi ein cyfrifon o dan y Confensiwn Cost Hanesyddol. Yn wreiddiol, cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau am gost hanesyddol neu werth trafodiad oni nodir yn wahanol ar y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

### c. Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifeg feirniadol a ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifeg hyn, mae'n ofynnol i ni ddatgan barn, amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynghylch gwerth cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Gall canlyniadau gwirioneddol yn y pen draw fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Y meysydd arwyddocaol sy'n destun amcangyfrif a barn yw:

- Dibrisiant/amorteiddio

Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau sefydlog yn seiliedig ar ddyfarniad a phrofiad y rheoli.

- Pensiynau

Y prif dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r gwarged yn y cynllun pensiwn buddion diffiniedig yw'r rhai a nodir yn nodyn 19. Mae nenfwd asedau wedi'i gymhwyso i ddod â'r safle net i ddim, gan gydnabod nad oes gan y CNB hawl ddiamod i warged.

- Darpariaeth panelwyr

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau panelwyr ychwanegol posibl yn adlewyrchu ein hamcangyfrif darbodus o effaith ehangach posibl hawliad unigol i dribiwnlys cyflogaeth am symiau ychwanegol gan banelydd addasrwydd i ymarfer.

#### d. Incwm

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod unwaith y bydd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth hawl i'r incwm, mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

- Incwm o weithgareddau elusennol

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu ffi gofrestru flynyddol i gael eu cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gallu ymarfer. Telir ffioedd cofrestru naill ai bob blwyddyn ymlaen llaw neu bob chwarter ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod y ffioedd fel incwm yn fisol trwy'r flwyddyn y mae'r ffi gofrestru yn berthnasol iddi. Y swm incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffioedd a gawsom ar bob dyddiad mantolen sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol yn y dyfodol. Mae ffioedd eraill, gan gynnwys ffioedd dilysu, yn cael eu credydu i incwm ar y diwrnod y derbynnir

- Incwm buddsoddi

Mae incwm buddsoddi yn cael ei gyfrif pan fydd modd ei dderbyn.

- Grantiau'r llywodraeth

Cydnabyddir incwm y grant unwaith y bydd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth hawl i'r incwm, mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Ar gyfer grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad, mae hawl i'r incwm yn cynnwys cwrdd â'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

## e. Gwariant

- Gweithgareddau elusennol

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl wariant sy'n gysylltiedig â gwrthrychau'r elusen sy'n cynnwys: hybu safonau a datblygu polisi, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer, a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Gweler nodyn 5.

- Costau cymorth

Costau cymorth yw costau ein swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys mangreoedd, TG, cyllid ac adnoddau dynol. Fe'u dosrennir i'r swyddogaethau rheoleiddio ar sail nifer y gweithwyr yn y swyddogaethau rheoleiddio.

## f. Cyfrifeg y Gronfa

Ar hyn o bryd nid yw'r holl gronfeydd wedi'u cyfyngu a'u hadrodd felly yn y cyfrifon. Maent ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn y Cyngor i gefnogi amcanion cyffredinol y CNB.

Rydym wedi derbyn cyllid grant cyfyngedig ac mae'r cronfeydd hyn wedi cael eu defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol a osodwyd.

## g. Asedau ar brydles

